

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO	GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE
DYDD IAU, 19 MEDI 2024 am 2:00 y. p.	THURSDAY 19 SEPTEMBER 2024 at 2:00 p.m.
YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHOL DRWY ZOOM	COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES

Geraint Bebb, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Dyfed Wyn Jones, Euryrn Morris (*Diprwy Gadeirydd*), Margaret M. Roberts

Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP

Ieuan Williams

LLAFUR CYMRU/WELSH LABOUR

Keith Roberts

ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS

Liz Wood

AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS

Dilwyn Evans (*Cadeirydd*), William Parry, Sharon Warnes, Michael Wilson

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod

R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2024.

3 **LOG GWEITHREDOEDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** (Tudalennau 11 - 14)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

4 **LLYWODRAETHU GWYBODAETH: ADRODDIAD BLYNYDDOL YR UWCH BERCHENNOG RISG GWYBODAETH (SIRO) 2023/24** (Tudalennau 15 - 28)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro.

5 **ADRODDIAD BLYNYDDOL PRYDERON, CWYNIION A CHWYTHU'R CHWIBAN 2023/24** (Tudalennau 29 - 36)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro.

6 **ADOLYGIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2023/24** (Tudalennau 37 - 50)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

7 **ADRODDIAD BLYNYDDOL ATAL TWYLL, LLWGRWOBROWYO A LLYGREDD 2023/24** (Tudalennau 51 - 68)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

8 **DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 69 - 74)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

9 **MATERION, RISGIAU A CHYFLEOEDD SY'N WEDDILL** (Tudalennau 75 - 84)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

10 **ARCHWILIO ALLANOL: DIWEDDARIAD CHWARTEROL AR RAGLEN WAITH AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU (CH1 2024/25)** (Tudalennau 85 - 102)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru.

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod

11 **ADOLYGIAD O'R BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 103 - 110)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

This page is intentionally left blank

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor a thwy Zoom ar 18 Gorffennaf 2024

PRESENNOL:	Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd) Y Cynghorydd Euryn Morris (Dirprwy Gadeirydd) Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Dyfed Wyn Jones, Keith Roberts, Margaret M. Roberts, Ieuan Williams. Aelodau Lleyg: Michael Wilson, William Parry, Mrs Sharon Warnes
WRTH LAW:	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Pennaeth Archwilio a Risg Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rhaglen (GP) (ar gyfer eitemau 5 a 6) Rheolwr Cyllid (CK) (ar gyfer eitem 4), Rheolwr Tîm TG (MH) (ar gyfer eitem 7) Swyddog Pwyllgor (ATH) Swyddog Gweddarlledu (FT)
YMDDIHEURIADAU:	Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.
HEFYD YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio dros Gyllid), David Tomalin (Archwilio Cymru), Prif Archwilydd (CSYM) (NW), Uwch Archwilydd (CSYM) (AL).

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Estynnodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad ef ac aelodau'r Pwyllgor i Mr Alan Hughes, Arweinydd Perfformiad Archwilio Archwilio Cymru a oedd wedi colli aelod agos o'r teulu'n ddiweddar.

1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 27 Mehefin, 2024 a chadarnhawyd eu bod yn gywir yn amodol ar nodi bod y Cynghorwyr Dyfed Wyn Jones a Margaret Roberts wedi anfon ymddiheuriadau am eu habsenoldeb o'r cyfarfod.

3. LOG CAMAU GWEITHREDU'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys log camau gweithredu'r pwyllgor i'w ystyried. Rhoddodd yr adroddiad wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar statws y camau gweithredu/penderfyniadau y cytunwyd arnynt yn ei ddau

gyfarfod blaenorol (mae'r log camau gweithredu wedi'i gyflwyno ar gyfer cyfarfod 18 Ebrill 2024) fel y gall aelodau fonitro cynnydd yn erbyn pob cam.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod dau gam gweithredu wedi'u cwblhau ac y byddent yn cael eu tynnu o'r log ac nad oedd adroddiadau mewn cysylltiad â'r camau gweithredu sy'n weddill i gael eu cyflwyno tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae'r cam gweithredu o dan rif 10 ar y gweill a bydd yn cael ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr, 2024.

Penderfynwyd nodi'r camau y manylir arnynt yn y tabl log camau gweithredu a chadarnhau bod y Pwyllgor yn fodlon bod y camau gweithredu wedi'u rhoi ar waith.

4. DATGANIAD DRAFFT O'R CYFRIFON 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys Datganiad drafft o'r Cyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn ddogfen statudol sy'n cael ei pharatoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol ac fe'i paratwir yn flynyddol i roi gwybodaeth i etholwyr, trethdalwyr lleol, aelodau'r Cyngor, staff a phartion eraill â diddordeb am gyllid y Cyngor yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a ddiolchodd i'r tîm Cyllid a phawb a oedd wedi cyfrannu at baratoi'r cyfrifon drafft am eu gwaith er mwyn gallu eu cyhoeddi erbyn y dyddiad cau, sydd, ar gyfer 2023/24 wedi'i ymestyn gan Lywodraeth Cymru i 30 Mehefin 2024. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 at brif ddiben y cyfrifon, sef diweddarau'r darllenwyr i'w galluogi i ffurfio barn am sefyllfa ariannol y Cyngor a'r modd y mae'n rheoli a defnyddio arian cyhoeddus. Rhoddodd drosolwg o brif adrannau'r cyfrifon sy'n cynnwys y datganiadau ariannol craidd a'r nodiadau esboniadol allweddol a'r hyn y maent yn ei adlewyrchu o ran sefyllfa ariannol y Cyngor. Hefyd cyfeiriodd at Dabl 1, 2 a 3 yn yr adroddiad rhagarweiniol a oedd yn crynhoi sefyllfa cronfeydd wrth gefn a balansau'r Cyngor, gan gynnwys sut mae pob math o gronfa wedi newid dros y flwyddyn. Mae'r cyfrifon yn dangos, ar ddiwedd 2023/24, bod cronfeydd wrth gefn drafft y Cyngor yn £15.604m ac mai cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yw £50.099m. Cynyddodd gwerth asedau net y cyngor £37.682m o £404.650m y llynedd i £442.332m ar 31 Mawrth 2024.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor –

- Balansau ysgolion a ph'un ai a yw ysgolion sydd mewn diffyg yn ddatblygiad sy'n dod i'r amlwg.
- Bod Tystysgrifau Adroddiad Cyflwr Gosodiad Trydanol (EICR) yn rhwymedigaeth wrth gefn. Gofynnwyd cwestiynau am y rhesymau pam mewn rhai achosion na ddarparwyd copïau o'r tystysgrifau yn cadarnhau i denantiaid y Cyngor fod archwiliadau trydanol wedi'u cwblhau yn ôl yr angen yn ogystal â chyfanswm y rhent y gallai fod yn rhaid ei ad-dalu i'r tenantiaid hynny nad oeddent wedi derbyn copïau o'r tystysgrifau fel iawndal a ph'un ai a fyddai'n effeithio ar y cyfrifon.
- Y cynnydd o £7.896m o ran credydwyr tymor byr i £42.465m o ganlyniad i anfonebau oedd yn aros i gael eu talu.
- Eglurhad o'r £6.615m o grantiau cyfalaf a dderbyniwyd ymlaen llaw ar gyfer cyfran y Cyngor ym Mwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC). Nodwyd bod y swm yn fwy na'r £4.618m a nodwyd fel cynnydd mewn grantiau a dderbyniwyd ymlaen llaw.
- Y gostyngiad ym malans y Cyfrif Refeniw Tai. Gofynnwyd cwestiynau hefyd ynghylch a yw cyfraniadau Datblygwyr Tai Adran 106 a'r gronfa dai fforddiadwy yn cael eu trosglwyddo i falansau'r CRT.
- Gorwariant ym maes Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fel risg i sefyllfa ariannol y Cyngor wrth symud ymlaen.

- Y defnydd o gronfeydd wrth gefn i ariannu costau sylweddol. Holwyd faint o gronfeydd wrth gefn a ddefnyddiwyd a ph'un ai a oedd unrhyw gyfran o'r swm hwnnw yn REFCUS (Gwariant Refeniw a Gyllidir o Gyfalaf o dan Statud).
- Gwariant sydd wedi'i gyfalafu. Awgrymwyd y dylai'r cyfanswm cyfalafol yn unol â'r tabl ar Dudalen 4 yr adroddiad naratif fod yn £30.636m yn hytrach na £50.574m gan fod £19.938m wedi'i nodi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gan ei fod naill ai i gefnogi asedau nad ydynt o dan berchnogaeth uniongyrchol y Cyngor (£5.422m) neu nad oedd yn cynyddu gwerth yr asedau cyfalaf (14.516m).
- Manylion y gwariant ar gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.
- Y cynnydd o 8.4% yn incwm y Dreth Gyngor yn erbyn cynnydd o 5% yng nghyfradd y Dreth Gyngor ar gyfer 2023/24 ph'un ai a oedd y cynnydd mewn incwm yn deillio o gyfradd gasglu well.
- Defnyddioldeb y Datganiad o Gyfrifon fel dogfen y gall y cyhoedd gyfeirio ati a chael darlun clir o gyllid a sefyllfa'r Cyngor o ystyried ei gymhlethdod a lefel y manylion technegol sydd ynddo.

Dywedodd y Cynghorodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ymhellach –

- Bod rhai ysgolion wedi bod mewn diffyg mewn blynyddoedd blaenorol ac wedi gorfod llunio cynllun i fynd i'r afael â'r diffyg. Yn ystod y pandemig, cafodd cyllid ysgolion hwb gan grantiau cyllido Covid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Dilëwyd diffygion a gwelwyd gwelliant o ran cyllid ysgolion gyda'i gilydd yn genedlaethol. Defnyddiwyd y grantiau hynny yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru i helpu disgyblion i ddal i fyny â'u haddysg. Ers hynny mae ysgolion wedi bod yn defnyddio eu cronfeydd wrth gefn i gydbwysu eu cyllidebau ac er bod y Cyngor wedi ceisio diogelu cyllideb yr ysgolion yn hanesyddol, bu gostyngiad o 1.5% yn 2024/25. Rhagwelir y bydd balansau ysgolion yn parhau i ostwng ac oni bai bod y sefyllfa ariannu yn gwella, mae'n debygol y bydd mwy o ysgolion mewn diffyg. Mae gan y pum ysgol gynradd sydd mewn diffyg ar 31 Mawrth 2024 gynllun i fynd i'r afael â'r sefyllfa. Bydd y duedd yn cael ei monitro er gwaethaf y ffaith mai fel canran o gyfanswm cyllideb balansau ysgolion Ynys Môn yw'r uchaf.
- Er bod archwiliadau trydanol wedi'u cynnal yn eiddo'r Cyngor a'u bod wedi cadarnhau bod y gosodiadau trydanol yn ddiogel, nid yw pob tenant wedi derbyn copïau o'r tystysgrifau EICR yn enwedig tenantiaid sydd â mynediad i ardaloedd cymunedol o fewn blociau o fflatiau lle gwneir yr archwiliadau. Pe bai'n rhaid i'r Cyngor ad-dalu rhent i'r tenantiaid hynny na chawsant gopïau o dystysgrifau fel iawndal, yna byddai'r rhwymedigaeth oddeutu £1.2m. Aseswyd ei fod yn rhwymedigaeth wrth gefn nad oedd darpariaeth ar ei chyfer oherwydd nad yw'n sicr y bydd yn rhaid bodloni'r rhwymedigaeth gan fod canlyniad achos llys yn ymwneud ag awdurdod lleol arall ar y mater hwn yn dal ar y gweill, y ddadl yw bod hwn yn fater o dorri rheolau technegol yn hytrach na diogelwch. Pe bai'n rhaid talu byddai'r rhwymedigaeth, byddai'n cael ei thalu o falansau'r CRT.
- Bod y cynnydd mewn credydwr tymor byr oherwydd yr anfonebau a oedd yn aros i gael eu talu yn deillio o nifer o ffactorau gan gynnwys materion technegol, capasiti, ac amseru gyda nifer a gwerth anfonebau'n tueddu i gynyddu tua diwedd y flwyddyn ariannol pan fydd problemau'n codi. Gwnaed gwaith i glirio'r rhai oedd heb eu talu drwy fis Ebrill a mis Mai y flwyddyn ariannol newydd ac mae'r sefyllfa bellach wedi gwella ac mae balans y credydwr wedi lleihau.
- Bod BUEGC yn cael ei ariannu gan grantiau Llywodraeth Cymru a San Steffan gyda'r olaf yn cael ei dderbyn mewn pymtheg rhandaliad bob blwyddyn. Nid yw'r cyllid hwn wedi'i wario oherwydd oedi cyn dechrau prosiectau ond mae'n dal i gael ei dderbyn ac mae mewn cronfa wrth gefn. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn na fydd unrhyw gyllid pellach yn cael ei ddosbarthu nes bod yr hyn sydd eisoes wedi'i ddyrannu yn cael ei ddefnyddio.
- Yn ôl y Cynllun Busnes CRT 30 mlynedd gellir defnyddio cronfa'r CRT i gefnogi datblygiadau tai newydd. Defnyddir y gwarged refeniw ar y cyfrif CRT hefyd at ddibenion

cyfalaf i gynnal y stoc tai presennol yn unol â safonau SATC yn ogystal â buddsoddi mewn tai newydd. Y strategaeth yw dod â chronfeydd wrth gefn y CRT i lawr i lefel o tua £1m gyda datblygiadau newydd i'w hariannu wedi hynny trwy fenthyca. Cyfraniadau datblygwyr Adran 106, yn dibynnu ar delerau'r cytundeb, yw cyfraniadau tuag at ddarparu tai fforddiadwy ac o'r herwydd maent yn gyfraniad ychwanegol i'r CRT. Mae cronfa wrth gefn Tai Fforddiadwy yn deillio o bremiwm y Dreth Gyngor ar ail gartrefi ac eiddo gwag tymor hir ac fe'i defnyddir i ariannu grantiau tai, benthyciadau a phrosiectau i helpu prynwyr tro cyntaf. Ni wnaed y dyraniad blynyddol i'r gronfa yn 2024/25 oherwydd barnwyd bod digon o arian yn y gronfa wrth gefn ar gyfer y cyllidebau hyn. Nid yw incwm o bremiwm y Dreth Gyngor yn cael ei ddyrannu i'r CRT oherwydd nad yw'n cael ei ddefnyddio i ddatblygu tai Cyngor newydd.

- Bod gorwariant ym maes Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn risg ariannol i'r Cyngor a'i fod yn deillio o gynnydd yn nifer y plant y mae angen i'r Cyngor ofalu amdanynt, cymhlethdod yr anghenion, prinder lleoliadau addas a chostau cynyddol. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol mewn gofal cymdeithasol plant trwy gynyddu'r ddarpariaeth fewnol a thrwy roi mesurau ataliol ar waith sy'n cefnogi plant a theuluoedd yn gynt mewn ymdrech i reoli gwariant.
- Bod £4.425m wedi'i ddefnyddio o falansau cyffredinol y Cyngor i gydbwyso'r gyllideb yn 2024/25 a £3.78m yn 2023/24. Mae'r Cyngor wedi ceisio bod yn agored ac yn dryloyw ynghylch ei ddefnydd o gronfeydd wrth gefn i gydbwyso ei gyllideb drwy fanylu ynghylch y dyraniad o gronfeydd wrth gefn yn y gyllideb derfynol; heb y cyfraniad o gronfeydd wrth gefn cyffredinol byddai'r Cyngor wedi gorwario, a fyddai p'run bynnag, wedi gorfod cael ei ariannu o gronfeydd wrth gefn. Gyda chyllid REFCUS mae'r Cyngor yn ariannu gwariant cyfalaf ar asedau nad yw'n berchen arnynt e.e. addasiadau Cyfleusterau i'r Anabl i gartrefi ac o'r herwydd priodolir y gwariant hwn i reffeniw. Nid yw'n effeithio ar falansau'r Cyngor gan mai cyllid grant ydyw yn bennaf.
- Bod £50.574m o gyllid cyfalaf wedi'i wario a bod £30.636m ohono wedi arwain at ased sydd wedi'i greu, sy'n cael ei ddefnyddio ac sydd wedi'i gynnwys ar y Fantolen. Mae'n cynnwys gwaith ar y gweill a REFCUS. Mewn ymateb i gwestiynau pellach ynghylch priodoldeb defnyddio'r term "cyfalafu" wrth gyfeirio at y cyfanswm o £50.574m, dywedodd y Swyddog Adran 151 y byddai'r defnydd o'r term yn y cyd-destun hwnnw'n cael ei adolygu.
- Bod cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn cael eu dyrannu ar gyfer prosiectau penodol y mae'r Cyngor yn bwriadu gwario arnynt neu risgiau sy'n hysbys i'r Cyngor. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y byddai'n anfon copi at Gadeirydd yr adroddiad i gyfarfod 23 Gorffennaf y Pwyllgor Gwaith ynghylch defnyddio balansau a chronfeydd wrth gefn.
- Bod y cynnydd yn incwm y Dreth Gyngor yn cynnwys premiwm y Dreth Gyngor ar ail gartrefi a gynyddwyd o 75% i 100% yn ogystal â praeseptau'r Heddlu a chynghorau tref a chymuned. Mae newidiadau i sylfaen y Dreth Gyngor yn ogystal â chartrefi newydd hefyd yn cynyddu'r incwm a dderbyniwyd.
- Bod y Datganiad Cyfrifon yn ddatganiad cyfrifyddu ariannol a all fod yn anodd ei ddeall i bobl heb unrhyw brofiad o faterion ariannol. Mae adroddiadau monitro'r gyllideb a gyflwynir i'r Pwyllgor Gwaith yn rhoi darlun cliriach o sut mae'r Cyngor yn perfformio'n ariannol ac yn dangos bod sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn iach ar hyn o bryd er bod rhai cronfeydd wrth gefn wedi gostwng wrth i'r Cyngor barhau i wynebu pwysau ariannol. Gallai digwyddiad annisgwyl, pwysau ychwanegol ym maes gofal cymdeithasol plant, sy'n arwain at leoliadau costus neu ofynion cynyddol yn sgil digartrefedd, brofi gwydnwch ariannol y Cyngor. Mae'r rhain yn bwysau nad yw'r cyhoedd o reidrwydd yn ymwybodol ohonynt ac maent yn feysydd lle mae'r gwariant yn uchel.

Ar ôl craffu ar y Datganiad Cyfrifon drafft, penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft nas archwiliwyd ar gyfer 2023/24.

Cam Gweithredu ychwanegol - Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i adolygu'r defnydd o'r term cyfalafu mewn cysylltiad â'r swm o £50.574m yn y tabl ar dudalen 4 yr Adroddiad Naratif.

5. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid a oedd yn cynnwys Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2023/24 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Mae'r Datganiad Llywodraethu yn dangos sut mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd ac ategol sydd yn '*Framework for Delivering Good Governance in Local Government*' (CIPFA / Solace, 2016) o ran cael trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei faterion, gan hwyluso'r gwaith o gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol gan gynnwys trefniadau i reoli risg ynghyd â rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rhaglen a roddodd drosolwg o gasgliad yr asesiad o effeithiolrwydd trefniadau Llywodraethu'r Cyngor yn erbyn egwyddorion craidd Fframwaith CIPFA/Solace yn unol â'r tabl ar dudalen 5 y ddogfen. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys crynodeb o gynnydd yn erbyn y materion llywodraethu a nodwyd y llynedd yn ogystal â materion llywodraethu a nodwyd gan y broses asesu ar gyfer 2023/24.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor –

- Yr anghysondeb rhwng amserlen fis Mawrth 2026 y mae'r Cyngor wedi'i gosod ar gyfer cydymffurfio â gofynion Deddf Caffael newydd 2023 a'r dyddiad y bydd darpariaethau'r Ddeddf yn dod i rym sef 28 Hydref 2024.
- O ran materion llywodraethu a nodwyd yn 2022/23 mewn perthynas â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, awgrymwyd bod y datganiad nad oedd y Cyngor wedi ymgymryd â'r hyfforddiant a gynlluniwyd ar Bŵer Cymhwysedd Cyffredinol ac nad oes ganddo gynlluniau i ymgymryd â'r hyfforddiant hwn yn ymateb anfodddhaol ac yn golygu bod y mater heb ei ddatrys a'i fod yn gofyn am esboniad, yn enwedig gan ei fod yn ymwneud â deddfwriaeth sydd o bosibl yn awgrymu bod angen ymgymryd â'r hyfforddiant.
- O ran rheoli a rhesymoli asedau'r Cyngor i sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac os nad ydynt, nodi'r gwaith sydd ei angen i'w codi i'r safon ofynnol, sut y bydd llwyddiant yn erbyn yr amcan hwn yn cael ei fesur o ystyried bod uwchraddio asedau'r Cyngor yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol sy'n annhebygol o gael ei sicrhau.
- P'un ai o ran gwydnwch ariannol y Cyngor, mae'r prosesau sydd angen eu hadolygu a'u symleiddio i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau a lleihau effaith gostyngiad mewn cyllid wedi'u nodi ac amserlen wedi'i llunio, p'un ai a oes capasiti/arbenigedd i ymgymryd â'r dasg ac a fydd y Pwyllgor yn rhan o'r gwaith hwnnw.

Dywedwyd ymhellach wrth y Pwyllgor –

- Fod Deddf Caffael 2023 yn darparu cyfnod pontio i awdurdodau lleol gydymffurfio â'i gofynion. Mae'r Cyngor wedi sefydlu cynllun strategol a rhaglen waith i sicrhau ei fod mewn sefyllfa i fodloni'r gofynion newydd.
- Nad yw'r hyfforddiant ar Bŵer Cymhwysedd Cyffredinol yn cael ei gynnig gan CLILC mwyach oherwydd bod blaenoriaethau eraill yn dod i'r amlwg. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn rhoi pwerau cymhwysedd cyffredinol i awdurdodau lleol yng Nghymru ac mae'n fater i'r Cyngor benderfynu a yw'r pŵer i gael ei ddefnyddio a sut y dylid defnyddio'r pŵer. Cytunwyd y dylid gofyn i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro egluro'r gofynion o ran Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol.

- Bod y Cyngor wedi mabwysiadu Strategaeth Gyfalaf 2024-29 ynghyd â Chynllun Strategol Rheoli Asedau lle cydnabyddir bod y buddsoddiad sydd ei angen i ddod ag asedau'r Cyngor yn ôl i'r safon ofynnol y tu hwnt i'r adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor. Mae'r diffyg buddsoddiad yn golygu bod cyflwr asedau'n parhau i ddirywio gan greu costau pellach o ran atgyweirio a chynnal a chadw. Nid yw'r cyllid cyfalaf y mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru drwy grantiau a chyllid craidd yn ddigon i fodloni gofynion cyfalaf y Cyngor a byddai gan unrhyw fenthyciadau i'r perwyl hwnnw oblygiadau i'r gyllideb refeniw ac felly i'r Dreth Gyngor. Bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu'n barhaus yn y dyfodol.
- Bod y Cyngor wedi dechrau ar y gwaith o adolygu ei brosesau a'i fod yn symud tuag at fwy o ddefnydd o dechnoleg ddigidol yn ei waith a'r ffordd y mae'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu â thrigolion gan gyflwyno system CRM a system ffôn newydd. Mae gan y rhan fwyaf o wasanaethau eu Rheolwr Busnes eu hunain i adolygu effeithiolrwydd prosesau busnes y gwasanaeth ac mae pob gwasanaeth yn paratoi cynllun darparu gwasanaethau blynyddol sy'n nodi blaenoriaethau'r gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn gan gynnwys adolygu prosesau; mae'r cynlluniau hynny'n cyfrannu at y Ddogfen Gyflawni Flynyddol sy'n nodi'r blaenoriaethau blynyddol ar gyfer cyflawni amcanion strategol y Cyngor fel y'u diffinnir gan Gynllun y Cyngor. Er bod prosiectau ar raddfa fawr yn cael eu rheoli gan y Byrddau Trawsnewid, mae gwaith i wella effeithlonrwydd prosesau busnes yn digwydd ar sawl lefel.

Penderfynwyd cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2023/24 a fydd yn rhan o Ddatganiad Cyfrifon 2023/24.

Camau Gweithredu Ychwanegol –

- **Gofyn i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro egluro'r gofynion o ran y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol.**
- **Diweddarau'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2024 ynghylch y cynnydd yn erbyn y materion llywodraethu a nodwyd gan broses asesu 2023/24.**

6. ADOLYGIAD O'R ADRODDIAD HUNANASESIAD CORFFORAETHOL BLYNYDDOL DRAFFT 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid a oedd yn cynnwys Adroddiad Hunanasesiad Corfforaethol Blynyddol drafft ar gyfer 2023/24 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Mae'r adroddiad yn sail dystiolaeth o sut mae'r Cyngor wedi perfformio dros y flwyddyn gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael wrth reoli a lliniaru risgiau cysylltiedig yn unol â disgwyliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rhaglen a gyfeiriodd at y saith maes allweddol sy'n ganolbwynt i'r hunanasesiad. Asesir bod pedwar maes (cynllunio gwasanaethau, cynllunio ariannol, cynllunio'r gweithlu a rheoli perfformiad) yn rhagori ar ddisgwyliadau tra asesir bod tri maes (rheoli asedau, caffael a rheoli contractau, a rheoli risg ac archwilio) yn bodloni disgwyliadau. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod cyfleoedd i wella a monitro sawl maes yn ystod 2024/25.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor –

- Bod cynllunio ariannol yn faes lle aseswyd bod perfformiad yn rhagori ar ddisgwyliadau ond nodwyd bod gwydnwch ariannol y Cyngor yn faes lle gallai'r Cyngor wneud yn well yn sgil yr argyfwng costau byw a'r gostyngiad mewn cyllid – mae'r rhain yn gwrthdweud ei gilydd. Yn yr un modd, aseswyd bod cynllunio'r gweithlu hefyd yn faes sy'n rhagori ar ddisgwyliadau, ond nodwyd bod mynd i'r afael â heriau'r gweithlu yn faes lle mae cyfleoedd i wella a monitro yn ystod 2024/25.

- Parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg a'i ymagwedd at risg. Gofynnwyd cwestiynau am agweddau cadarnhaol risg o ran cyflwyno cyfleoedd ar gyfer gwella a chynnydd ac i ba raddau y mae'r Cyngor yn barod i fentro i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd hynny.

Rhodddwyd cyngor pellach i'r Pwyllgor fel a ganlyn –

- Bod y sgôr asesu cyffredinol ar gyfer pob un o'r 7 maes allweddol yn seiliedig ar hunanwerthusiad pob gwasanaeth o'i berfformiad yn y meysydd hynny yn erbyn un o 5 maen prawf fel y nodir yn Natganiad Sefyllfa Gwasanaeth y Cyngor ar ddiwedd y ddogfen. Mae cynllunio ariannol yn golygu rheoli cyllid y Cyngor yn strategol, gan greu cynlluniau i ddyrannu adnoddau a chyllidebu tra bo gwydnwch ariannol yn ymwneud â pharodrwydd a gallu'r Cyngor i wrthsefyll effeithiau ariannol o bwys a allai ddigwydd yn y tymor hir. Mae cyfleoedd i wella a monitro wedi cael eu cydnabod mewn perthynas â'r olaf. Yn yr un modd, roedd yr asesiad yn cydnabod bod gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o gynllunio'r gweithlu a bod y gofynion yn eu lle ar gyfer cyflawni ei ymrwymadau, ei gynlluniau a'i amcanion o ran adnoddau dynol ond bod meysydd lle gallai gweithredu'r camau gweithredu a nodwyd wella perfformiad ymhellach i'w symud i'r lefel nesaf.
- Mae dull y Cyngor o ymdrin â risg a'i barodrwydd i dderbyn risg fel y mae'r gofrestr risgiau strategol yn ei ddangos yn seiliedig ar reoli'r risgiau a allai ei atal rhag cyflawni ei amcanion yn hytrach nag ar gymryd risgiau er mwyn gwella perfformiad na fydd efallai'n arwain at y canlyniad a ddymunir. Nid yw'r Cyngor wedi asesu'n ffurfiol ei barodrwydd i dderbyn risg o safbwynt faint o risg y mae'n fodlon ei dderbyn i sicrhau manteision ychwanegol. Mae prosiectau newid y Cyngor yn cael eu profi cyn iddynt gael eu gweithredu i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, eu bod yn cyflawni yn ôl y bwriad ac i leihau unrhyw ganlyniadau negyddol.

Ar ôl adolygu'r ddogfen a chynnig sylwadau, penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo Adroddiad Hunanasesiad Corfforaethol drafft 2023/24 ac argymhell hynny i'r Pwyllgor Gwaith.

7. DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a'i ddiweddariad ar 30 Mehefin, 2024 ar yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad blaenorol ar 31 Mawrth 2024 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi llwyth gwaith cyfredol Archwilio Mewnol a'i flaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canolig wrth symud ymlaen. Rhodddwyd sicrwydd i aelodau'r Pwyllgor drwy gopiâu ar wahân o'r tri adroddiad archwilio mewnol a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf mewn perthynas â Chyrchfan - Tîm Morwrol - Prosesau Incwm (Sicrwydd Rhesymol); Archwilio TG - Rheoli Cyflenwyr TG (Sicrwydd Cyfyngedig); Cadernid amcangyfrifon a digonolrwydd asesu cronfeydd wrth gefn (Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003) (Sicrwydd Rhesymol). Roedd cynllun gweithredu yn cyd-fynd â'r adroddiad Sicrwydd Cyfyngedig i fynd i'r afael â'r materion/risgiau a godwyd gan yr adolygiad archwilio mewnol.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor –

- Bod yr Hunanasesiad Corfforaethol yn asesu bod y broses gaffael a rheoli contractau yn bodloni disgwyliadau, tra bod yr adolygiad archwilio mewnol o Reoli Cyflenwyr TG wedi nodi nifer o faterion/risgiau caffael sy'n gofyn am gamau rheoli.
- Capasiti Archwilio Mewnol a'r arbedion sy'n deillio o'r swydd wag yn erbyn costau gwasanaeth gan arbenigedd trydydd parti.
- Y materion a godwyd gan yr adolygiad archwilio mewnol perthynas â Chyrchfan – Tîm Morwrol – Prosesau Incwm. Trafodwyd y mater hwn yn breifat ar ddiwedd y cyfarfod yn sgil argymhelliad y Cadeirydd a chymeradwyodd y Pwyllgor, o dan Adran 100 (A) (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod

yn ystod y drafodaeth ar y sail bod y mater yn ymwneud â datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodlen 12A o'r Ddeddf honno gan ei bod yn cyfeirio at faterion busnes y Cyngor a allai ragfarnu buddiannau'r Cyngor yn fasnachol, yn ariannol ac yn gyfreithiol. Cododd yr Aelodau gwestiynau am yr incwm a gynhyrchir yn erbyn costau'r gwasanaeth a gofynnwyd am sicrwydd hefyd ynghylch y gwendidau a amlygwyd gan yr adolygiad archwilio a'r camau gweithredu sydd eu hangen i'w goresgyn.

Cynghorwyd y Pwyllgor fel a ganlyn –

- Bod Deddf Caffael 2023 newydd yn gosod nifer o gyfrifoldebau ar awdurdodau lleol a threfniadau'r sector cyhoeddus. Oherwydd capasiti cyfyngedig, comisiynodd y Cyngor ymgynghoriaeth allanol i adolygu trefniadau caffael y Cyngor a'i barodrwydd ar gyfer y newidiadau y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn eu cyflwyno. Maent wedi datblygu rhaglen wella dwy flynedd i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r gofynion newydd ac fe'u hail-gomisiynwyd i ddarparu cymorth i gyflawni'r cynllun gwella. Nid oes rhaid bodloni'r holl ofynion erbyn mis Hydref 2024 pan ddaw'r ddeddfwriaeth i rym. Diweddarodd Rheolwr y Tîm TG y Pwyllgor mewn perthynas â'r ddau fater yn ymwneud â'r Uned TG o'r adolygiad Rheoli Cyflenwyr TG a chadarnhaodd eu bod yn symud ymlaen yn unol â'r amserlen.
- Bod yr arbedion ym maes Archwilio Mewnol yn deillio o'r swydd wag ar lefel Uwch Archwiliwr oherwydd bod secondiad hirdymor yn parhau. Defnyddir yr arbedion i gomisiynu cefnogaeth trydydd parti, yn ôl yr angen. Hefyd adolygir y modd y cyflawnir y swyddogaeth risg ac yswiriant a allai greu arbedion y gellid eu defnyddio ym maes Archwilio Mewnol.
- Ymhelaethodd y Pennaeth Archwilio a Risg ar y materion a godwyd gan adolygiad Cyrchfan – Tîm Morwrol – Prosesau Incwm a chadarnhaodd y cytunwyd â rheolwyr ynghylch camau i fynd i'r afael â'r materion hynny ac i wella prosesau incwm mewn cynllun gweithredu sydd ar gael ar wahân.

Penderfynwyd nodi canlyniad gwaith Archwilio Mewnol, a derbyn y sicrwydd a ddarparwyd a'r blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

Camau Gweithredu Ychwanegol – Pennaeth Archwilio a Risg i roi copi i aelodau'r Pwyllgor o'r cynllun gweithredu adolygu Prosesau Incwm - Cyrchfan – Tîm Morwrol

8. ADRODDIAD CYNNYDD AR GANLYNIADAU MENTER TWYLL GENEDLAETHOL 2022-24

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn nodi canlyniadau diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol mewn perthynas â Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Budd-dal Tai i'w hystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn manylu ar y cynnydd a wnaed gan y Cyngor wrth ymateb i ganfyddiadau'r Fenter Twyll Genedlaethol a'r canlyniadau perthnasol gan gynnwys y canlyniad ariannol - amcangyfrifir bod arbedion o £3,838.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor –

- Anallu'r tîm Budd-daliadau i neilltuo adnoddau i ddadansoddi achosion o baru data gan arwain at golli cyfleoedd i atal twyll a manteision posibl. Holwyd a oedd adnoddau ar gael ar gyfer ymarfer nesaf y Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer 2024-26.

Rhoddydwyd gwybod i'r Pwyllgor fod gan y Cyngor wasanaeth atal twyll yn hanesyddol cyn i'r swyddogaeth gael ei chanoli gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a oedd yn golygu bod y Cyngor wedi colli'r adnodd. Mae'r Cyngor yn derbyn arian grant gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i weinyddu budd-dal tai ar ei ran. Mae'r cyllid hwn yn gostwng wrth i hawlwyd drosglwyddo o Fudd-dal Tai i Gredyd Cynhwysol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau i fod yn gyfrifol am asesu ceisiadau o dan gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor sy'n golygu

nad yw'r llwyth achos yn lleihau ar yr un gyfradd â'r arian grant. Mae'r Cyngor yn defnyddio grant yr Adran Gwaith a Phensiynau i ganolbwyntio ar brosesu'r ceisiadau hynny, sy'n golygu nad oes adnodd ar gael ar hyn o bryd i'w neilltuo i wneud gwaith atal twyll. Mae'r Cyngor wedi dyrannu adnoddau i'r Dreth Gyngor i ymchwilio i hawliadau disgownt person sengl a rhai heb dalu'r premiwm ac mae'r olaf wedi creu incwm ychwanegol i'r Cyngor.

Penderfynwyd cadarnhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymryd sicrwydd o'r adroddiad bod y cyngor, gan ystyried yr angen i flaenoriaethu ei adnoddau, yn ceisio manteisio ar gyfleoedd a ddarperir drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol i ddefnyddio a dadansoddi data i gryfhau'r broses o atal a chanfod twyll.

9. ADOLYGIAD O'R BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith a Rhaglen Hyfforddiant y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Amlygwyd un newid i amserlen yr adroddiadau gan y Pennaeth Archwilio a Risg.

Nodwyd gan y Pwyllgor fod yr agenda arfaethedig ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi 2024 yn arbennig o brysur; awgrymwyd bod y Pennaeth Archwilio a Risg mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd yn ystyried y posibilrwydd o aildrefnu rhai o'r eitemau busnes arfaethedig ar gyfer y cyfarfod a/neu nodi eitemau er gwybodaeth yn unig, lle bo hynny'n briodol.

Penderfynwyd derbyn y Blaen Raglen Waith arfaethedig ar gyfer 2024/25 fel un sy'n bodloni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.

Camau Gweithredu ychwanegol - Pennaeth Archwilio a Risg mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd i adolygu'r busnes a drefnwyd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi 2024 gyda'r bwriad o symleiddio'r agenda.

**Mr Dilwyn Evans
Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	19 Medi 2024
Pwnc:	Log Gweithredodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru
Awdur yr Adroddiad:	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru
Natur a Rheswm Dros Adrodd: Mae'r adroddiad hwn yn hysbysu aelodau'r Pwyllgor am statws y gweithredoedd / penderfyniadau y cytunwyd arnynt.	

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae'r cofnod gweithredu hwn yn cael ei ddiweddarau cyn pob cyfarfod er mwyn galluogi'r Pwyllgor i fonitro cynnydd a chwblhau'r camau/penderfyniadau y mae wedi cytuno arnynt.

2. Argymhellion

- 2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r camau y manylir arnynt yn y tabl isod a'i fod yn fodlon â'r camau a roddwyd ar waith.

Log Gweithredoedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Rhif	Dyddiad y Cyfarfod	Rhif yr Eitem	Gweithred	Perchennog y Weithred	Camau a Gymerwyd	Statws
4	18/04/24	8	Yn y dyfodol, diwygio ffurf a chynnwys adroddiadau sy'n ymwneud ag adolygiadau cenedlaethol a'u hargymhellion, yn unol â'r awgrym.	Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol	Adroddiad nesaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2024.	
6	18/04/24	13	Yn y dyfodol, dylai'r Adroddiad Seiberddiogelwch Blyneddol gynnwys unrhyw achosion (os bu rhai) lle mae amddiffynfeydd TG / seiberddiogelwch y Cyngor wedi cael eu goresgyn a'r camau adfer a gymerwyd.	Rheolwr TG	Adroddiad nesaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2024.	
8	27/06/24	7	Pennaeth Archwilio a Risg i drefnu sesiwn ar liniaru risg a chyflwyniad i Ddeallusrwydd Artiffisial o fewn rhaglen hyfforddi'r Pwyllgor ar gyfer 2024/25.	Pennaeth Archwilio a Risg		
9	27/06/24	7	Cyflwyno diweddariad pellach ar Gynllun Gweithredu Adolygu Effeithiolrwydd y Pwyllgor ar ddiwedd chwe mis.	Pennaeth Archwilio a Risg	Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn cyflwyno diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 5 Rhagfyr 2024.	

Rhif	Dyddiad y Cyfarfod	Rhif yr Eitem	Gweithred	Perchennog y Weithred	Camau a Gymerwyd	Statws
10	27/06/24	9	Dylid cynnwys monitro nifer y bobl mewn anweithgarwch economaidd fel rhan o set ddata tueddiadau poblogaeth y Cyngor.	Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol	Bydd y Cyngor yn sefydlu gwaelodlin ar gyfer anweithgarwch economaidd fel rhan o ddadansoddiad economaidd-gymdeithasol ehangach o boblogaeth yr Ynys.	Ar y gweill – bydd yn cael ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2024
11	18/07/24	4	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 i adolygu'r defnydd o'r term cyfalafu mewn cysylltiad â'r swm o £50.574m yn y tabl ar dudalen 4 yr Adroddiad Naratif.	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151	Bydd yn cael ei ystyried fel rhan o gwblhau'r Datganiad Cyfrifon.	Ar y gweill. Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r Datganiad Cyfrifon yw 30 Tachwedd 2024.
12	18/07/24	5	Gofynnir i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro egluro'r gofynion o ran y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol.	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro	Rhoddodd Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ddiweddariad i Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a fydd yn rhannu gyda'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf (19/09/24).	Cwblhawyd
13	18/07/24	6	Rhoddir diweddariad i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2024 ar gynnydd yn erbyn y materion llywodraethu a nodwyd gan broses asesu 2023/24.	Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol		

Rhif	Dyddiad y Cyfarfod	Rhif yr Eitem	Gweithred	Perchennog y Weithred	Camau a Gymerwyd	Statws
14	18/07/24	7	Pennaeth Archwilio a Risg i roi copi i aelodau'r Pwyllgor o'r Cynllun Gweithredu Cyrchfan - Y Tîm Morwrol - Adolygiad Prosesau Incwm	Pennaeth Archwilio a Risg	Rhoddodd y Pennaeth Archwilio a Risg gopi dwyieithog o'r Cynllun Gweithredu i aelodau'r Pwyllgor drwy e-bost ar 26/07/2024.	Cwblhawyd
15	18/07/24	9	Pennaeth Archwilio a Risg mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd i adolygu'r busnes a drefnwyd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi 2024 gyda'r bwriad o symleiddio'r agenda.	Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â'r Cadeirydd	Mae'r agenda wedi'i symleiddio.	Cwblhawyd

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	19 Medi 2024
Pwnc / Testun:	Llywodraethu Gwybodaeth – Adroddiad Blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro / SIRO
Awdur y Adroddiad:	Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro / SIRO
Natur a Rheswm dros Adrodd: Darparu dadansoddiad yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth o'r prif faterion Llywodraethu Gwybodaeth am y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024 a chrynhoi'r risgiau gwybodaeth cyfredol a'r mesurau i'w lliniaru.	

1.0 Gwybodaeth

Mae cael fframwaith atebolrwydd ar gyfer diogelu data, yn cynnwys dynodi Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO), yn cael ei ystyried yn arfer da o fewn y sector cyhoeddus. Mae'n rhaid i'r SIRO ddarparu sicrwydd ynglŷn ag ymarfer, cynnydd a datblygiadau ym maes rheoli risgiau'n gysylltiedig â thrin gwybodaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu datganiad yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth ac yn rhoi trosolwg o'r modd y mae'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol wrth ymdrin â gwybodaeth gorfforaethol, yn cynnwys cydymffurfio â Rheoliad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ar Ddiogelu Data (GDPR y DU); Deddf Diogelu Data 2018; Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2018; Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Goruchwyliaeth) a'r codau ymarfer perthnasol.

Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth ar gyswllt y Cyngor â rheoleiddwyr allanol ac mae hefyd yn darparu gwybodaeth am ddiwyddiadau diogelwch, achosion o dorri cyfrinachedd, neu "ddigwyddiadau ond y dim" yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae data allweddol ar weithgareddau llywodraethu gwybodaeth y Cyngor ar gael yn Atodiadau 2-8 isod.

Yn fy marn i mae'r rhan fwyaf o risgiau llywodraethu gwybodaeth y Cyngor yn ymwneud â setiau data digidol a bygythiadau seiber. Fel SIRO, rwyf yn cydnabod y bydd y cyfeiriad a ddilynir o ran arfer da, sy'n ceisio helpu sefydliadau i gyflawni ac arddangos y lefel briodol o gydnerthedd seiber, yn sicrhau y bydd rôl y SIRO yn cyd-fynd yn agos â rheoli bygythiadau seiber a darparu tystiolaeth o arfer da.

Felly, yn fy adroddiad ar gyfer y cyfnod 2024-25 rwyf yn bwriadu canolbwyntio ar y risg yma a pha mor effeithiol yw dulliau a mesurau lliniaru'r Cyngor o ran rheoli'r bygythiad hwn.

Felly, rwy'n argymhell bod:

Y SIRO ac uwch arweinwyr y Cyngor yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar y bygythiadau seiber a'r mesurau lliniaru fel y gellir gwneud penderfyniadau strategol yn cyflym ac effeithiol ac yn seiliedig ar wybodaeth, yn gysylltiedig â'r bygythiad parhaus i gywirdeb a chyfrinachedd asedau data'r Cyngor.

Atodiad 1. Nifer y digwyddiadau diogelwch data a gofnodwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

Digwyddiadau diogelwch data (23/24): 13 digwyddiad

Lefel 0 – Lefel 1 (digwyddiadau ond y dim neu ddigwyddiadau diogelwch data a gadarnhawyd ond **nad oes** rhaid hysbysu SCG a rheoleiddwyr eraill yn eu cylch) = **12**

Digwyddiadau Lefel 2 (digwyddiadau diogelwch seiber y mae'n **rhaid** hysbysu SCG yn eu cylch oherwydd y risg sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad) = **1**

Categori Lefel 0 -1	Nifer
Datgelu trwy gamgymeriad	12
Colli Data / caledwedd	0
Datgelu heb awdurdod	0
Colli wrth gael ei gludo	0
Arall	0
Categori 2	Nifer
Datgelu trwy gamgymeriad	0
Datgelu heb awdurdod	0
Methiant technegol	0
Arall	1

Atodiad 2. Camau a gytunwyd yn dilyn y digwyddiadau diogelwch data.

Camau gweithredu

Ni chytunwyd ar unrhyw gamau ffurfiol yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

Atodiad 3. Tor diogelwch data a adroddwyd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

1.0 Hysbyswyd SCG ynglŷn ag achos o dorri diogelwch data ym mis Gorffennaf 2023. Gwnaed hynny ar ôl darganfod bod partneriaid y Cyngor, fel rhan o fenter a oedd yn cynnwys prosesu data personol, yn cynnwys data personol categorïau arbennig*, wedi bod yn prosesu data mewn modd a oedd yn ymddangos yn groes i oblygiadau statudol y partner o dan y ddeddf diogelu data.

Cyflwynodd y Cyngor adroddiad annibynnol yn unol â'r ddyletswydd statudol o dan Erthygl 33(1) o GDPR y DU.

Dyrannwyd swyddog i ddelio â'r achos cyn ei uwchgyfeirio i SCG er mwyn cynnal ymchwiliad ffurfiol. Darparwyd adroddiad gan SCG ym mis Tachwedd 2023 a ddaeth i'r casgliad bod y digwyddiad yn groes i Erthygl 28(2); 5(1)(a); a 6 o GDPR y DU.

Penderfynodd SCG beidio â chymryd camau ffurfiol, penderfyniad a oedd yn seiliedig ar y camau lliniaru a oedd wedi cael eu rhoi ar waith gan y bartneriaeth yn dilyn yr adroddiad.

** Data personol sy'n datgelu hil neu ethnigrwydd, barn wleidyddol, crefydd neu gred athronyddol, aelodaeth undeb llafur, prosesu data genetig neu ddata biometreg i adnabod person naturiol, data iechyd neu ddata yn ymwneud â bywyd rhywiol neu ogwydd rhywiol.*

Atodiad 4. Gwybodaeth am geisiadau a chwynion o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

4.1 Ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, derbyniodd y cyngor 1002 o geisiadau am wybodaeth a oedd yn cynnwys cyfanswm o 6329 o elfennau unigol.

i.	Cyfanswm nifer y ceisiadau a dderbyniwyd	1002
ii.	Cyfanswm nifer yr elfennau a dderbyniwyd	6329
iii.	Canran y ceisiadau a dderbyniodd ymateb o fewn yr amserlen statudol	80.1%
iv.	Cyfanswm nifer y ceisiadau am Arolwg Mewnol yn unol â'r Cod Ymarfer Statudol	10

Eithriadau a ddefnyddiwyd a pa mor aml:

Adran 12 (uwch na'r terfyn addas) ar 3 achlysur.

Adran 14 (ceisiadau mynych) ar 1 achlysur.

Adran 21 (gwybodaeth ar gael drwy ddulliau eraill) ar 8 achlysur.

Adran 30 (ymchwiliadau ac achosion) ar 2 achlysur.


Adran 40 (data personol) ar 1 achlysur.

Adran 41 (gwybodaeth a ddarparwyd yn gyfrinachol) ar 22 achlysur.

4.2 Ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac ymatebion hwyr.


Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 derbyniodd y Cyngor 1002 o geisiadau am wybodaeth.

Roedd 192 o'r ymatebion yn hwyr. Mae nifer y ceisiadau a dderbyniwyd (mewn glas), a nifer yr ymatebion hwyr (mewn coch) i'w gweld isod.




4.3 Ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, derbyniodd y Cyngor 1002 o geisiadau, a oedd yn cynnwys **6329 o elfennau unigol**. Mae gwybodaeth am yr elfennau hyn ar gael isod.



4.4 Cydymffurfiaeth yn ôl maes gwasanaeth.

Mae SCG yn cynghori awdurdodau cyhoeddus i ymateb i 90% o geisiadau cyn pen 20 diwrnod. Rhwng 1 Ebrill 2023 - 31 Mawrth 2024, cyfartaledd cydymffurfiaeth gorfforaethol y Cyngor oedd 80.1%. Er bod rhai gwasanaethau'r cydymffurfio â safon arfer da SCG, mae'n amlwg bod hynny'n heriol mewn rhai gwasanaethau. Dylid cymharu'r wybodaeth isod â'r wybodaeth yn adran 4.3 (uchod) i gael darlun cynhwysfawr.



Allwedd

Cwrdd â'r safon arfer da o 90% a bennwyd gan SCG neu'n uwch na'r safon

Cwrdd â'r cyfartaledd corfforaethol ar gyfer 2023-2024 neu'n uwch na'r cyfartaledd


Is na'r cyfartaledd corfforaethol ar gyfer 2023-2024



4.5 Ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.


Mae'r Cyngor yn categorio ceisiadau yn seiliedig ar yr math o bobl sy'n cyflwyno ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, daeth mwyafrif y ceisiadau gan ddinasyddion preifat a oedd yn gwneud hynny'n bersonol ac yn answyddogol neu heb fod yn gysylltiedig â busnes.



4.5 Data cymharol ar geisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a pherfformiad 2015-2024.

Dros y 9 mlynedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi derbyn a phrosesu 54,146 o elfennau unigol o dan y Ddeddf Ryddid Gwybodaeth. Mae hyn gyfystyr â 6016 o elfennau'r flwyddyn. Y gyfradd cydymffurfiaeth (ymateb cyn pen 20 diwrnod gwaith) ar gyfer y cyfnod hwn oedd 68% ar gyfartaledd. Mae'n ddiddorol nodi er bod nifer y ceisiadau wedi gostwng yn ystod y Pandemig, ni fu gostyngiad yng nghyfradd ymateb y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn nifer yr elfennau a broseswyd, a'r gostyngiad mewn cydymffurfiaeth yn ystod 2022-23, yn debygol o fod o ganlyniad i'r effaith y cafodd problemau staffio ar brosesau'r Cyngor yn ystod y cyfnod hwn.



Atodiad 5. Gwybodaeth am nifer y cwynion diogelu data a wnaed i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn gan unigolion ynglŷn â'r modd y proseswyd eu gwybodaeth bersonol.

Mae deddfwriaeth diogelu data yn atgyfnerthu hawliau gwrthrych y data i gwyno am y modd y mae sefydliadau wedi defnyddio eu data personol, neu'n bwriadu ei ddefnyddio, neu sut y maent fel arall wedi amharu ar hawliau gwrthrych y data.

Cwynion i'r Cyngor o dan y Ddeddf Diogelu Data

Derbyniwyd 2 gŵyn o dan y Ddeddf Diogelu Data,

1 yn ymwneud â chais i **ddileu data personol**

1 yn ymwneud â **gwrthod gadael** i'r Cyngor brosesu data personol

Yn dilyn ymchwiliad gan y swyddog Diogelu Data:

Cafodd 1 achos ei gadarnhau. Roedd y Cyngor wedi amharu ar hawliau'r unigolyn drwy brosesu'r data. **Ni chafodd y llall ei gadarnhau.** Nid oedd y Cyngor wedi amharu ar hawliau'r unigolyn drwy brosesu'r data.

Atodiad 6. Gwybodaeth ynglŷn â nifer y Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth a pherfformiad y Cyngor.

Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth a chydymffurfiaeth

Yr wyf yn gallu adrodd ar nifer y ceisiadau gwrthrych am wybodaeth a dderbyniwyd gan y Swyddog Diogelu Data ac a broseswyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig.

Derbyniwyd 49 cais gwrthrych am wybodaeth yn ystod y cyfnod. Derbyniodd 50% (19) ymateb o fewn y terfyn amser statudol priodol h.y. ymhen mis, ac roedd 1 ymateb yn hwyr. Mae 29 cais yn aros am gadarnhad neu eglurhad ynglŷn â hunaniaeth yr ymgeiswyr.

7.1. Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) yn goruchwyllo'r modd y mae awdurdodau cyhoeddus yn cynnal gwyliadwriaeth gudd a ffynonellau cudd-wybodaeth ddynol yn unol â Deddf yr Heddlu 1997, Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 a Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA). Nod y gyfundrefn RIPA yw sicrhau bod gweithgareddau gwyliadwriaeth gyfeiriedig yn cael eu cynnal mewn ffordd sy'n cydymffurfio â hawliau dynol. Cyflawnir hyn trwy system o hunanawdurdodi gan uwch swyddogion sy'n gorfod bod yn fodlon bod y wylidwriaeth yn angenrheidiol ac yn gymesur; yna mae'n rhaid derbyn cymeradwyaeth gan farnwr i'r hunanawdurdodiad.

Mae Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth y Cyngor hefyd yn Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer cydymffurfiaeth y Cyngor â gweithdrefnau RIPA. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn gallaf gadarnhau'r canlynol:

- i. Mae'r IPCO wedi archwilio trefniadau'r Cyngor ac mae o'r farn ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Nid oedd unrhyw argymhellion ar gyfer gwella a chadarnhaodd Syr Brian Levenson: "O'r herwydd, ni fydd rhaid ail-ymweld â'ch Cyngor..."
- ii. Ni chafodd unrhyw awdurdodiadau eu gwneud yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

7.2 Y Comisiynydd Gwybodaeth

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn gyfrifol am orfodi a hyrwyddo cydymffurfiaeth â Deddf Diogelu Data 2018 a GDPR y DU; Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; y Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig; y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol; y Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth Sector Cyhoeddus; y Rheoliadau INSPIRE. Mae gan y Comisiynydd Gwybodaeth y pŵer i asesu'r ffordd y mae unrhyw sefydliad wedi prosesu data personol yn erbyn safonau 'arfer da' cyfredol.

Gwybodaeth am nifer y cwynion diogelu data a wnaed gan unigolion ynghylch y modd y bu i'r Cyngor brosesu eu gwybodaeth bersonol ac yr ymchwiliwyd iddynt gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

Fe wnaeth SCG ymchwilio i ddau gŵyn ac roedd un yn dal i fynd rhagddo ar ddiwedd y cyfnod adrodd hwn. Yn y naill achos ni fu'n rhaid i'r Cyngor gymryd unrhyw gamau pellach.

Apeliadau i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

Cyflwynwyd apêl i SCG ynglŷn â dau benderfyniad yn ystod y cyfnod adrodd hwn:

Mewn un achos, penderfynodd SCG y dylai'r Cyngor ddarparu ymateb o sylwedd i'r cais cyn pen 10 diwrnod gwaith;

Gyda'r ail, gofynnwyd i'r Cyngor ystyried elfennau diogelwch data'r cwyn Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar wahân, ond ni fu'n rhaid cymryd unrhyw gamau pellach.

7.3. Y Comisiynydd Camerâu Goruchwylio

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd ar gyfer y cyfnod hwn.

Atodiad 8. Diweddariad ar benderfyniadau'r Pwyllgor yn gysylltiedig a'r adroddiad ar gyfer 2022-2023.

Ym mis Chwefror 2024, cyflwynais fy adroddiad blynyddol ar gyfer y cyfnod 2022-2023 a oedd yn cynnwys argymhellion. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr argymhellion hyn. Maent wedi wedi'u rhestru isod, ynghyd â diweddariad (hyd at fis Mawrth 2024).

i. a asesu defnydd y Cyngor o systemau TCC a'i ddefnydd, os o gwbl, o dechnoleg dronau;

Ni fu'n bosib cynnal yr asesiad hwn oherwydd diffyg capasiti yn y Gwasanaeth TG.

- 7.4 Ar 9 Mai 2024, buddsoddodd Cyngor Sir Ynys Môn £5m gyda National Westminster Bank Plc am 3 mis, gyda chyfradd llog o 5.23%.
- 7.5 Ar 11 Mehefin 2024, aeddfedodd buddsoddiad o £5m gyda National Westminster Bank Plc ac fe'i rholiodd drosodd am 6 mis arall gyda chyfradd llog o 5.23%.
- 7.6 Nid oes unrhyw brif ad-daliadau o fenthycu PWLB yn ddyledus gan Gyngor Sir Ynys Môn ym mlwyddyn ariannol 2024/25.
- 7.7 Y gyllideb llog derbyniadwy o £0.885m a osodwyd ar gyfer 2024/25 oedd y balansau amcangyfrifedig o falansau arian a buddsoddiadau hylifol ac amcangyfrif o gyfradd llog gyfartalog. Y llog a dderbyniwyd i chwarter 1 2024/25 oedd £465k, a rhagwelir y gellir bodloni'r gyllideb llog derbyniadwy yn 2024/25.
- 7.8 Gellir gweld y gyfradd llog diweddaraf a ragwelir gan Link Group (ar Gorffennaf 2024) yn y tabl isod:-

Cyfradd Banc	Nawr	Meh 2024	Medi 2024	Rhag 2024	Maw 2025	Meh 2025	Medi 2025	Rhag 2025	Maw 2026	Meh 2026	Medi 2026	Rhag 2026	Maw 2027
Link Group	5.25%	5.25%	5.00%	4.50%	4.00%	3.50%	3.25%	3.25%	3.25%	3.25%	3.00%	3.00%	3.00%

8. Casgliad

Roedd perfformiad Rheoli'r Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn unol â'r strategaeth o fuddsoddiadau risg isel / enillion isel a dull benthycu a gynlluniwyd i leihau taliadau llog gymaint â phosibl.

Mae'r perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Darbodus a osodwyd gan y Cyngor yn dangos bod gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys y Cyngor yn cael eu cynnal mewn ffordd reoledig sy'n sicrhau diogelwch ariannol y Cyngor ac nad ydynt yn rhoi'r Cyngor mewn unrhyw berygl ariannol sylweddol o ran benthycu anfforddiadwy neu ormodol.

Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor, a'i berfformiad yn erbyn y strategaeth, yn ystyried y ffactorau economaidd allanol ac mae'n cael ei hadolygu'n gyson i sicrhau mai hon yw'r strategaeth fwyaf priodol wrth symud ymlaen.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i'r:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	19 Medi 2024
Pwnc:	Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2023-24
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru
Awdur yr Adroddiad:	Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru
<p>Natur a Rheswm dros Adrodd:</p> <p>Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Pwyllgor oruchwyllo unrhyw feysydd o dwyll a gaiff eu hadnabod mewn adroddiad blynyddol a monitro'r cynlluniau gweithredu er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw wendidau a'u rheoli (3.4.8.9.5). Maent hefyd yn nodi'r angen i'r Pwyllgor ystyried y sicrwydd a ddarperir gan archwilio mewnol (3.4.8.9.6).</p> <p>Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r gweithgaredd Archwilio Mewnol a gynhaliwyd yn ystod 2023-24 i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd rhag digwydd o fewn y Cyngor ac yn ei erbyn ac mae'n dod i gasgliad ynghylch effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer lleihau'r risg o dwyll.</p>	

1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth archwilio mewnol arfarnu'r posibilrwydd y bydd twyll yn digwydd a sut mae'r sefydliad yn rheoli'r risg o dwyll (Safon 2120).
- 1.2. Yn ychwanegol at hynny, mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn datgan bod rhaid i swyddog ariannol cyfrifol y Cyngor (Swyddog Adran 151) sicrhau bod ei systemau rheolaeth cyfrifeg yn cynnwys mesurau sy'n caniatáu i wallau a thwyll gael eu hatal a'u canfod.

2. ARGYMHELLIAD

- 2.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn cynnig sylwadau ar y gweithgaredd a gynhaliwyd yn ystod 2023-24 i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd rhag digwydd o fewn y Cyngor ac yn ei erbyn ac yn nodi'r sicrwydd a ddarparwyd i'r Pwyllgor am effeithlonrwydd trefniadau'r Cyngor i leihau'r risg o dwyll.

Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2023-24

Awst 2024



Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS

Pennaeth Archwilio a Risg



Cynnwys

Cyflwyniad _____	2
Pam fod Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd yn Bwysig? _____	3
Y Cyd-destun Presennol _____	3
Asesiad o Drefniadau Atal Twyll o fewn y Cyngor _____	4
Cynnydd wrth Weithredu Argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol _____	7
Achosion o Geisio Twyllo'r Cyngor yn ystod 2023-24 _____	8
Casgliad _____	9
Atodiad 1 – Beth yw Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd? _____	9
Atodiad 2 – Cyflawni'r Cynllun Gweithredu Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-2025 _____	11
Atodiad 3 – Rhybuddion y Rhwydwaith Cenedlaethol Atal Twyll _____	17

Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod 2023-24 i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd¹ rhag digwydd o fewn Cyngor Sir Ynys Môn ac yn ei erbyn.
2. Mae hyn yn cefnogi gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, 2022 (PSIAS), lle mae'n ofynnol i'r gwasanaeth archwilio mewnol arfarnu'r posibilrwydd y bydd twyll yn digwydd a sut mae'r sefydliad yn rheoli'r risg o dwyll (Safon 2120).
3. Hefyd, mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, yn datgan bod rhaid i swyddog ariannol cyfrifol y Cyngor (Swyddog Adran 151) sicrhau bod ei systemau rheoli cyfrifeg yn cynnwys mesurau atal a chanfod gwallau a thwyll.
4. Roedd [adroddiad](#) gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2019 yn datgan nad yw gwerth y colledion oherwydd twyll yn y sector cyhoeddus yn hysbys. Roedd [adroddiad](#) gan Swyddfa'r Cabinet yn 2019 yn nodi bod yr ystod isaf ac uchaf ar gyfer y colledion tebygol yng ngwariant y llywodraeth rhwng 0.5% a 5% o'r gwariant.
5. Gan ddefnyddio'r amcangyfrifon hyn, mae'n awgrymu y gallai colledion yn sgil twyll a chamgymeriadau fod rhwng £1.04 miliwn a £10.4 miliwn y flwyddyn, yn seiliedig ar [gyllideb](#) refeniw gros y Cyngor ar gyfer 2023-24.
6. Roedd [adroddiad](#) pellach ynghylch twyll gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a gyhoeddwyd yn 2020 yn gwneud 15 argymhelliad ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru.
7. Mae'r adroddiad hwn yn asesu effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor i leihau'r risg o dwyll, a'i gynnydd wrth ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'n amlgu rhai o'r meysydd lle mae'r risg o dwyll yn bodoli'n barod, a meysydd lle mae'n dechrau dod i'r amlwg, ynghyd â heriau a chyfleoedd yn y dyfodol.

¹ Mae esboniad o'r hyn sydd gyfystyr â llwgrwobrwyo a llygredd wedi'i gynnwys yn [Atodiad 1](#)

Pam fod Atal Twyll, Llwgwrwbrwyo a Llygredd yn Bwysig?

8. Mae pob punt a gollir oherwydd twyll, llwgwrwbrwyo a llygredd yn golled i'r pwrs cyhoeddus ac mae'n lleihau gallu'r sector cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau i bobl sydd eu hangen.
9. Mewn cyfnod pan mae pwysau ariannol yn cynyddu, mae'n bwysicach nac erioed bod pob corff cyhoeddus yng Nghymru'n ceisio lleihau'r risg o golledion oherwydd twyll, yn ogystal â chefnogi cynaliadwyedd ariannol.
10. Gall twyll gael effaith ar enw da'r sector cyhoeddus hefyd, gan danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd ac effeithlonrwydd sefydliadau.
11. Pan fydd cynghorau'n cymryd camau atal twyll effeithiol byddant yn ailadeiladu ymddiriedaeth y cyhoedd ac yn sicrhau bod arian prin yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.
12. Mae'r sector cyhoeddus yn cael ei dargedu'n gynyddol bellach, oherwydd bod y trafodion ariannol yn fwy, ac mae twyllwyr yn gallu gwneud mwy o elw.
13. Yn y cod ymarfer, *Code of Practice on Managing the Risk of Fraud and Corruption*² mae CIPFA yn dadlau:

“Mae cyfrifoldeb ar arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i wreiddio safonau effeithiol ar gyfer atal twyll a llygredd yn eu sefydliadau eu hunain. Mae hyn yn cefnogi llywodraethiant da ac yn arddangos stiwardiaeth ariannol effeithiol a rheolaeth ariannol gyhoeddus effeithiol.”

² [Code of Practice on Managing the Risk of Fraud and Corruption](#), CIPFA, 2014

³ [Fraud Barometer 2023: A snapshot of fraud in the UK](#), KPMG, Chwefror 2024

Y Cyd-destun Presennol

14. Mae pryder gwirioneddol ymysg y sectorau cyhoeddus a phreifat yn y DU fod twyll bellach wedi cyrraedd lefel nas gwelwyd o'r blaen – yn ôl y Swyddfa Gartref, twyll sy'n gyfrifol am dros 40% o droseddau, ond mae'n derbyn llai na 1% o adnoddau'r heddlu.³
15. Mae'n costio biliynau i economi'r DU bob blwyddyn. Mae'r Biwro Cudd-wybodaeth Twyll Cenedlaethol, sy'n rhan o Heddlu Dinas Llundain, wedi cyfrifo bod gwerth y colledion oherwydd twyll a gafodd eu hadrodd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023 yn £2.1 biliwn.
16. Er bod ffigyrau diweddaraf yr Arolwg o Droseddau yng Nghymru a Lloegr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mawrth 2024 (3.2 miliwn o ddigwyddiadau twyll) yn dangos gostyngiad o 10% mewn troseddau twyll o gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym Mawrth 2023 (3.5 miliwn o ddigwyddiadau), twyll yw'r drosedd fwyaf cyffredin yng Nghymru a Lloegr heddiw.⁴
17. Fodd bynnag, roedd amcangyfrifon yr Arolwg o Droseddau yng Nghymru a Lloegr yn dangos bod llai nag un mewn saith o droseddau twyll yn cael eu hadrodd i'r heddlu neu *Action Fraud* (y ganolfan genedlaethol sy'n caniatáu i'r cyhoedd adrodd am dwyll a throseddau seiber). Mae'r diffyg hwn o ran adrodd am droseddau twyll yn llesteirio ein dealltwriaeth o'r bygythiad.
18. Oherwydd y rhyfel yn Wcráin a'r argyfwng costau byw, risgiau allweddol eraill i fusnesau, megis amharu ar y gadwyn gyflenwi, materion cadw staff a bygythiadau seiber, mae'r cyfleoedd i dwyllo'n parhau i gynyddu a bydd twyllwyr yn manteisio ar y sefyllfa gan ddefnyddio dulliau mwyfwy soffistigedig i gyflawni troseddau.
19. Mewn ymateb, cyhoeddodd llywodraeth y DU ei Strategaeth Twyll⁵ a chyflwynwyd deddfwriaeth newydd, gan gynnwys y drosedd o 'fethu ag atal twyll' yn Neddf Troseddau Economaidd a Thyryloywder

⁴ [Crime in England and Wales](#), Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Mawrth 2024

⁵ [Fraud Strategy: stopping scams and protecting the public](#), Mehefin 2023

Corfforaethol 2023 a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Hydref 2023.

20. Bwriad y drosedd hon yw annog sefydliadau i dderbyn cyfrifoldeb am systemau a rheolaethau gwael y gallai unigolion gam-fanteisio arnynt er mwyn torri'r gyfraith. Gall y sefydliad osgoi cael ei erlyn os yw'n gallu profi fod ganddo 'weithdrefnau rhesymol' ar waith pan gyflawnwyd y drosedd dwyll, er mwyn atal y math hwn o dwyll rhag digwydd.
21. Mae'r risg o dwyll hefyd yn cael ei gydnabod fel problem ddifrifol gan nifer o ran y bygythiad mewnlol gan reolwyr a staff. Amlygodd adroddiad⁶ gan Zurich UK, a seiliwyd ar ddata Rhyddid Gwybodaeth gan 43 o luoedd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr, fod cynnydd sylweddol yn yr achosion o ddwyn gan weithwyr wrth i gynnydd mewn costau byw esgor ar don o droseddau yn y gweithle.
22. Roedd y cynnydd hwn yn cael ei ailadrodd yn ardal llw Heddlu Gogledd Cymru, gydag achosion o ddwyn gan weithwyr yn cynyddu o 55 yn 2021 i 68 yn 2022; cynnydd o 24%.
23. Ynghyd ag ardaloedd lluoedd heddlu Hampshire, Swydd Gaer a Surrey, roedd ardal llw Heddlu Gogledd Cymru yn y chwarter uchaf o ardaloedd lluoedd yr heddlu a welodd gynnydd yn yr achosion o ddwyn gan weithwyr (y 13eg cynnydd uchaf).
24. Er bod ffigyrau cenedlaethol yn datgelu bod y ffigwr hwn wedi gostwng ychydig yn 2023-24, o 6,560 i 6,244 o weithwyr a gafodd eu dal yn dwyn can eu cyflogwr, mae hyn yn parhau i fod yn fwy na 500 o ddigwyddiadau bob mis yng Nghymru a Lloegr.
25. Mae Zurich wedi gweld cynnydd hefyd mewn hawliadau yswiriant am deilwra cymdeithasol, lle mae twyllwyr yn dylanwadu ar weithwyr er mwyn iddynt wneud taliadau neu rannu manylion banc a chyfrineiriau. Mae hyn yn cynnwys achosion lle mae troseddwyd wedi hacio cyfrif e-bost uwch swyddog ac anfon cyfarwyddiadau talu brys gyda manylion banc ffug at aelodau eraill o staff a sefydliadau allanol.

⁶ [Employee theft jumps by a fifth as cost-of-living pressures mount](#), Zurich UK, Chwefror 2023

Asesiad o Drefniadau Atal Twyll o fewn y Cyngor

26. Mae CIPFA yn cymeradwyo set gyffredin o egwyddorion ar draws y gwasanaethau cyhoeddus er mwyn gwella arfer atal twyll sy'n cael eu nodi yn y ddogfen [Code of Practice on Managing the Risk of Fraud and Corruption](#). Gan ddefnyddio'r cod hwn fel meincnod, cynhaliwyd asesiad yn erbyn y pum egwyddor a gellir gweld crynodeb lefel uchel o'r canlyniadau isod.

Cydnabod Cyfrifoldeb

27. Mae egwyddor gyntaf y Cod yn argymhell y dylai'r corff llywodraethu gydnabod ei gyfrifoldeb am sicrhau fod yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll a llygredd yn cael eu rheoli'n effeithiol ym mhob rhan o'r sefydliad.
28. Mae fframwaith o bolisiau'n bodoli, fel sy'n cael ei argymhell yn y canllawiau, ac mae meddalwedd derbyn polisiau yn monitro a yw staff yn deall ac yn derbyn rhai o'r polisiau. Cyflwynwyd y polisiau a ganlyn i staff er mwyn iddynt gadarnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ohonynt ac, ar 10/10/23⁷, roedd y cyfraddau derbyn fel a ganlyn:

Polisi	Cyfradd Cydymffurfio
Cod Ymddygiad Swyddogion a Chanllawiau Lleol	90% (976 o 1,083)
Polisi a Chanllawiau Chwythu'r Chwiban	95% (1,024 o 1,083)

29. Fel rhan o'r Strategaeth Atal Twyll ar gyfer 2022-25, mae rhaglen gynhwysfawr yn cael ei darparu er mwyn diweddarau polisiau, codi ymwybyddiaeth am brosesau atal twyll a chyflwyno pecyn E-ddysgu.

⁷ Mae'r meddalwedd derbyn polisiau'n cael ei uwchraddio ar hyn o bryd.

Nodi risgiau twyll a llygredd

30. Mae'r ail egwyddor yn nodi bod adnabod y risg o dwyll yn hanfodol er mwyn deall perygl risgiau penodol, newid ym mhatrymau bygythiadau twyll a llygredd a'r canlyniadau posib i'r sefydliad a'i ddefnyddwyr gwasanaeth.
31. Mae'r Cod yn cefnogi ystyried risgiau twyll a llygredd fel risgiau busnes ac y dylid eu rheoli fel rhan o broses rheoli risgiau'r sefydliad. Mae gan y Cyngor fframwaith rheoli risg aeddfed ac mae'r risg o dwyll yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses honno.
32. Ar y cyd â'r Tîm Hyfforddi a Datblygu, darparwyd rhaglen o hyfforddiant atal twyll ym mis Rhagfyr 2023 a mis Mawrth 2024, gan dargedu aelodau etholedig ac aelodau lleyg, a rheolwyr sydd â chyfrifoldebau ariannol a chaffael.

Strategaeth atal twyll a llygredd

33. Mae'r drydedd egwyddor yn argymhell bod angen strategaeth atal twyll ar sefydliadau sydd yn nodi sut mae'n rheoli risgiau a diffinio cyfrifoldebau am weithredu.
34. Mae gan y Cyngor strategaeth sydd wedi'i diffinio'n glir, a gymeradwywyd ar y lefel uchaf (gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ym mis Rhagfyr 2021), sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan helpu i sicrhau bod y Cyngor yn cymryd y risg o dwyll a llygredd o ddifri.
35. Mae [Atodiad 2](#) yn cynnwys manylion am gynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu a gynhwysir yn y Strategaeth.

Darparu Adnoddau

36. Mae capasiti ac adnoddau ar gyfer trefniadau atal twyll wedi bod yn brin, yn debyg i'r sefyllfa o fewn holl wasanaethau'r Cyngor.
37. Er hynny, neilltuwyd aelod o'r Tîm Archwilio Mewnol a Rheoli Risg yn ystod y flwyddyn i fod yn gyfrifol am:
 - Ymchwilio i honiadau o dwyll.

- Cydlynu'r data y mae'n rhaid i'r Cyngor ei ddarparu i'r Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer yr ymarfer paru data a gynhelir bob dwy flynedd.
- Ymchwilio i achosion risg uchel a ganfyddir yn ystod ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol.
- Rhannu rhybuddion gan y Rhwydwaith Atal Twyll Cenedlaethol gyda'r swyddogion perthnasol.
- Mynychu Gweithgor Atal Twyll Partneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru.

38. Treuliodd y Tîm Archwilio Mewnol 67 diwrnod (8%) ar weithgareddau atal twyll yn ystod 2023-24 (28 diwrnod / 4% yn 2022-23), gan gynnwys 7 diwrnod (8 diwrnod yn 2022-23) o waith ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol a 60 diwrnod (20 diwrnod yn 2022-23) ar waith atal twyll rhagweithiol, delio gydag ymholiadau twyll cyffredinol a chynnal ymchwiliadau.

Gweithredu

39. Mae'r egwyddor olaf yn argymhell bod sefydliadau'n rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi'r strategaeth atal twyll a llygredd a chymryd camau i atal, canfod ac ymchwilio twyll.
40. Mae'n sefydlu y bydd y gallu i weithredu'n ddibynnol ar faint a natur sefydliad a maint ei gapasiti atal twyll. Fodd bynnag, beth bynnag yw maint a gweithgareddau sefydliad, mae angen iddo gymryd camau priodol ac adrodd ar y camau hynny i'w gorff llywodraethu.
41. Y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o ymladd twyll yw drwy ei atal rhag digwydd yn y lle cyntaf. Gellir cyflawni hyn drwy rannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth.
42. Yn ystod 2023-24:
 - Cynhaliodd banc y Cyngor, Nat West, seminar genedlaethol ar 'Daclo Twyll Gyda'n Gilydd – Y Prif Fygythiadau' i Awdurdodau Lleol.
 - Rhannodd y tîm Archwilio Mewnol rhybuddion gan y Rhwydwaith Atal Twyll Cenedlaethol ag adrannau perthnasol o

fewn y Cyngor yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn (gweler [Atodiad 3](#)).

- Darparwyd rhaglen o hyfforddiant i aelodau etholedig ac aelodau lleyg, a rheolwyr a swyddogion sydd â chyfrifoldebau ariannol a chaffael. Darparwyd 10 sesiwn wyneb yn wyneb ac roedd cyfanswm o 129 wedi mynychu'r sesiynau hyn (gweler niferoedd presenoldeb isod a thaflen yr hyfforddiant ar y dde)

Mynychwyr	Nifer
Aelodau	16
Rheolwyr	17
Swyddogion	35
Staff sy'n defnyddio Systemau Ariannol	61
Ddim yn gallu bod yn bresennol ond wedi mynegi diddordeb	8

Ymwybyddiaeth Twyll a Llygredd

Gall Twyll a Llygredd beri **risgiau difrifol** i'n timau a sefydliad. Rydym i gyd yn gyfrifol am rheoli'r risgiau hyn a gweithredu mewn ffordd ddiogel a chyfreithlon.

Mae'r cwrs hwn yn hanfodol i'r rhai sy'n ymwneud â chynhyrchu a phrosesu **Archebion Swyddogol, anfonebau** a thrafodion **ariannol** eraill.

Hyfforddiant i Reolwyr

Bydd ein sesiwn Rheolwyr yn rhoi gwybodaeth ymarferol i chi am **risgiau Twyll a Llygredd**, ac yn eich arfogi â'r sgiliau sydd eu hangen i'w reoli yn effeithiol.

Hyfforddiant i Swyddogion

Mae'r sesiwn hon yn darparu'r offer angenrheidiol i **adnabod ac atal** ymddygiadau a chynlluniau a allai fod yn llwgr; nid yn unig y bydd Swyddogion yn gallu **amddiffyn eu hunain**, ond hefyd yr Awdurdod a Chyllid Cyhoeddus.

Hyfforddiant i Ddefnyddwyr Systemau Ariannol

Mae'r cwrs byr hwn yn archwilio'r dirwedd **Seiberdroseddu** presennol a thactegau sy'n cael eu ddefnyddio'n aml gan droseddwyr i ddwyn arian a gwybodaeth oddi wrth sefydliadau, ac mae'n **ddysgu hanfodol i ddefnyddwyr systemau Cyllid a Thal**.

Ystafell Cyfarfod Penmon

Canolfan Fusnes Môn,
Llangefni, Ynys Môn,
LL77 7XA

Sesiwn dysgu wyneb-i-wyneb yw hwn.
Nid oes ystafelloedd dosbarth hybrid ar gael.

Hyfforddiant@YnysMon.llyw.cymru

Archebwch nawr ar Y Gronfa Ddysgu

Dysgu Môn

Cynnydd wrth Weithredu Argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol

43. Fe wnaethom asesu cynnydd y Cyngor wrth weithredu'r 15 argymhelliad sydd wedi'u cynnwys yn [adroddiad](#) Archwilydd Cyffredinol Cymru ar dwyll yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru a gyhoeddwyd yn 2020.
44. O'r 15 argymhelliad, roedd un yn berthnasol i Lywodraeth Cymru ac roedd yr 14 arall yn berthnasol i'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru, gan gynnwys llywodraeth leol.
45. Mewn ymateb i hyn, sefydlwyd Gweithgor Atal Twyll, sef is-grŵp o Bartneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru, er mwyn cydweithio i fynd i'r afael â'r argymhellion oedd yn berthnasol i lywodraeth leol. Roedd hyn yn mynd i'r afael ag un o'r argymhellion yn ymwneud â gwella cydweithio o fewn y sector.
46. Datblygwyd templed 'arfer orau' gan y Gweithgor fydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf Partneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru ar 1 Hydref 2024, i'w gymeradwyo gan y prif swyddogion archwilio sy'n aelodau o'r Bartneriaeth.
47. Mae Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-25 y Cyngor yn nodi llawer o waith sy'n mynd i'r afael â'r argymhellion, ond mae angen gwneud mwy.
48. Roedd yr hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll addas i'r rôl yn helpu i wella effeithiolrwydd y Cyngor o ran atal, canfod ac ymateb i dwyll.
49. Bydd y gwaith o ddatblygu diwylliant atal twyll y Cyngor yn parhau gyda lansiad y pecyn eDdysgu a'r system Adrodd am Dwyll, ynghyd â'r polisiâu diwygiedig, fydd yn cyd-daro â'r Wythnos Ryngwladol Ymwybyddiaeth o Dwyll ym mis Tachwedd 2024. Bydd hyn yn hyrwyddo pwysigrwydd atal twyll i'r Cyngor a bydd yn rhoi hyder i staff a'r cyhoedd nad yw twyll yn cael ei oddef.
50. Mae'r Cyngor yn ceisio manteisio i'r eithaf ar ei waith yn gysylltiedig â'r Fenter Twyll Genedlaethol a bydd yn parhau i ddadansoddi data fel rhan o'i waith monitro parhaus, a'i ymestyn i gynnwys data cyflogau.

51. Pan fydd twyll yn cael ei nodi a'i daclo'n llwyddiannus, bydd yn derbyn cyhoeddusrwydd er mwyn atgyfnerthu neges gadarn o frig y sefydliad na fydd twyll yn cael ei oddef.
52. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n ymwneud ag atal twyll. Mae'n derbyn adroddiadau ar ganlyniadau ymchwiliadau twyll ac mae'n darparu cefnogaeth a chyfeiriad, mae'n monitro ac mae'n dal swyddogion i gyfrif.
53. Er bod gan y Cyngor staff sydd wedi'u hyfforddi ym maes atal twyll ac sy'n cwrdd â safonau proffesiynol cydnabyddedig, mae capasiti'n parhau i fod yn broblem a bydd angen blaenoriaethu adnoddau prin ar sail risg.
54. Yr allwedd wrth ymateb i'r risgiau twyll sy'n wynebu'r Cyngor yw defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ddod â gwasanaethau at ei gilydd i gynnal asesiadau risg cynhwysfawr mewn perthynas â thwyll, gan ddefnyddio staff sy'n meddu ar sgiliau priodol, defnyddio gwybodaeth genedlaethol, yn ogystal â gwybodaeth sy'n benodol i'r sefydliad.
55. Defnyddir yr asesiadau risg twyll hyn fel adnodd byw a'u hymgorffori yn y fframwaith rheoli risg gyffredinol er mwyn sicrhau bod y risgiau a nodir yn cael eu rheoli'n briodol a'u huwchgyfeirio yn ôl yr angen.

Achosion o Geisio Twyllo'r Cyngor yn ystod 2023-24

Twyll Mewnol

56. Ym mis Awst 2023, yn unol â'r Polisi ar gyfer Atal Twyll a Llygredd, cyfeiriodd un o Benaethiaid Gwasanaeth y Cyngor achos posib o dwyll mewnol at y Pennaeth Archwilio a Risg, a bu iddi gynnal ymchwiliad mewnol i'r mater. Cafodd y gweithiwr ei atal o'r gwaith tra bod yr ymchwiliad yn mynd rhagddo.
57. Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg adroddiad i'r Prif Weithredwr, a gofynnodd yntau i'r mater gael ei adrodd i Heddlu Gogledd Cymru. Cymeradwywyd hyn gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, yn unol â'r Cyfansoddiad.
58. Gofynnodd Heddlu Gogledd Cymru i'r gweithiwr wneud trefniadau i gael ei gyfweld ganddynt. Yn dilyn hynny, penderfynodd y gweithiwr ymddiswyddo a derbyniodd y Cyngor ymddiswyddiad y gweithiwr.
59. Ar ôl cael ei gyfweld dan rybuddiad, pan gyfaddefodd y cyn-weithiwr iddo gyflawni trosedd o dan Adran 2 Deddf Twyll 2006, derbyniodd y cyn-weithiwr Rybuddiad Amodol gan Heddlu Gogledd Cymru.

Grant Adfywio Gogledd Môn

60. Ar ôl derbyn atgyfeiriad gan aelod o'r cyhoedd ym mis Mehefin 2023, gofynnodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 i'r tîm Archwilio Mewnol ymchwilio i honiad fod rhywun wedi derbyn grant Adfywio Gogledd Môn gwerth £7,500 trwy dwyll ac nad oedd hawl ganddynt i'r dyfarniad.
61. Ceisiodd ein hymchwiliad gadarnhau p'un a oedd y meini prawf cymhwysra a'r gofynion cymhwysedd wedi'u bodloni pan ddyfarnwyd y grant.

62. Cadarnhaodd ein hymchwiliad fod yr ymgeisydd wedi dilyn y broses ar gyfer ymgeisio am y grant yn gywir a'i fod wedi cyflwyno'r dogfennau y gofynnodd y Cyngor amdanynt. Roedd yr holl ddogfennau a phrawf fod yr ased wedi cael ei brynu yn bodloni gofynion y grant. Roedd yr holl ddogfennau wedi cael eu cyflwyno a'u cyflawni yn y drefn gywir ac o fewn yr amserlen a bennwyd.
63. Daeth panel o swyddogion o fewn y Cyngor i'r casgliad fod prif amcan y cynllun wedi'i fodloni a phroseswyd y cais yn unol â'r casgliad hwn.

Gwaredu â Gwastraff Tai

64. Derbyniodd y cyn Arweinydd, y Cynghorydd Llinos Medi, gŵyn gael aelod o'r cyhoedd ynglŷn â threfniadau prynu deunyddiau a gwaredu gwastraff yn yr Uned Cynnal a Chadw Tai, gan honni fod un cyflenwr penodol yn cael ei ffafrio.
65. Cyfeiriodd y cyn Arweinydd y gŵyn at y tîm Archwilio Mewnol. Cafodd pryderon tebyg eu hymchwilio yn 2021, ond ni chawsant eu cadarnhau. Cyflwynodd yr achwynydd gais Rhyddid Gwybodaeth hefyd a chododd y mater gydag Archwilio Cymru, ond penderfynodd Archwilio Cymru beidio ag ymchwilio ymhellach i'r mater.
66. Oherwydd bod gwariant o dan y contract wedi cynyddu, cynhaliodd y tîm Archwilio Mewnol adolygiad mewnol i asesu p'un a ddilynwyd y gweithdrefnau cywir ac a dderbyniwyd gwerth am arian. Cadarnhaodd yr ymchwiliad bod rheolau caffael wedi eu dilyn, ond nodwyd mân anghysonderau a gordaliadau posib mewn perthynas â thaliadau gwaredu gwastraff. Cytunwyd ar gynllun gweithredu er mwyn cryfhau rheolaethau, adennill gordaliadau a gwella trefniadau rheoli contractau.
67. Roedd yr ymchwiliad, wedi'i gefnogi gan ganlyniad yr ymchwiliadau blaenorol, hefyd yn dod i'r casgliad na ddangoswyd ffafriaeth amhriodol tuag at y darparwyr rheoli gwastraff.


Casgliad

68. Mae rhyw lefel o dwyll yn y sector cyhoeddus yn debygol o ddigwydd hyd yn oed yn ystod cyfnodau arferol, ond roedd 2023-24 yn parhau i fod yn flwyddyn o heriau heb eu tebyg. O wybod bod holl elfennau'r triongl twyll delfrydol sy'n caniatáu i dwyll ffynnu (cymhelliant, cyfle a rhesymoli) wedi cynyddu, rhagwelir y bydd twyll yn parhau i fod yn fygythiad ariannol sylweddol i gynghorau, ac nad oes arwydd ei fod yn arafu.
69. Nid yw'r Cyngor yn ddiogel rhag achosion o ddwyn yn y gweithle, sy'n gallu digwydd ar bob lefel ac am flynyddoedd heb gael ei ganfod. Oni bai bod mesurau amddiffyn addas ar waith gennym, ni fydd gan y Cyngor lawer o obaith adennill arian neu nwyddau sy'n cael eu dwyn a gallai wynebu costau eraill, megis dirwyon gan reoleiddwyr. Mae rheoli'r risg o dwyll a llygredd yn rhan hanfodol o unrhyw gyngor modern, effeithiol sy'n mynd ati i reoli ei adnoddau'n effeithiol er mwyn sicrhau gwerth am arian. Gall y Cyngor leihau'r risg o ddwyn gan weithwyr trwy roi rheolaethau cadarn ar waith ar gyfer gwneud taliadau, cynnal archwiliadau a sefydlu diwylliant gwaith cadarnhaol.
70. Mae'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Atal Twyll, Llwgwrwbrwyo a Llygredd 2022-2025 yn mynd rhagddo'n dda. Bydd parhau i wireddu'r Cynllun Gweithredu'n sicrhau fod y Cyngor yn ymladd twyll yn llwyddiannus. Un o'r camau allweddol nesaf fydd datblygu asesiad o'r risg o dwyll ar gyfer y Cyngor cyfan a fydd yn helpu i wella gallu'r Cyngor i nodi achosion posib o dwyll, yn ogystal ag unrhyw wendidau yn ei drefniadau atal twyll, neu feysydd lle mae'r risg o dwyll yn uwch. Bydd hyn yn caniatáu i'r Cyngor dargedu ei adnoddau prin yn well a'i weithgareddau'n briodol, yn enwedig os, neu pryd, y bydd risgiau newydd yn gysylltiedig â thwyll yn dod i'r amlwg.
71. Yn olaf, mae ymddygiadau a gweithredoedd unigolion yn hanfodol bwysig wrth daclo'r risg o dwyll. Mae'n rhaid i bob un ohonom, yn staff ac aelodau fel ei gilydd, fynd ati i greu diwylliant sy'n elyniaethus i'r risg o dwyll a llygredd a sefydlu llinell glir rhwng yr hyn sy'n ymddygiad derbyniol ac annerbyniol o fewn y Cyngor.

Atodiad 1 – Beth yw Twyll, Llwgwrwbrwyo a Llygredd?

Twyll

Mae Deddf Twyll 2006 yn amlinellu tair ffordd y gellir cyflawni'r drosedd:



Mae'n golygu bod y tramgwyddwr ar ei ennill (yn ariannol fel arfer), tra bod rhywun arall (gan gynnwys sefydliad) ar ei golled, neu mae'n golygu fod rhywun arall yn wynebu colled.

Er enghraifft, gyda thwyll trwy gynrychiolaeth ffug, mae'r tramgwyddwr, yn fwriadol, yn cyflwyno hawliadau ffug am oramser, neu'n cyflwyno cymwysterau ffug yn ystod y broses recriwtio.

Mae enghraifft o dwyll trwy fethu â datgelu gwybodaeth yn cynnwys peidio â datgelu gwybodaeth i farnwr mewn achos cyfreithiol, gan olygu fod y sefydliad yn colli'r achos ac yn gorfod talu iawndal.

Mae twyll trwy gam-drin grym yn cynnwys enghreifftiau lle mae aelod o staff yn cam-drin ei safle i ddyfarnu contractau i ffrindiau a theulu, neu'n trosglwyddo taliadau credydwy'r i'w gyfrif personol ei hun.

Llwgwobrwyo

Mae Deddf Llwgwobrwyo 2010 yn nodi'r pedair ffordd o gyflawni'r drosedd:

- Llwgwobrwyo naill ai'n uniongyrchol neu trwy drydydd parti
- Derbyn llwgwobrwyon
- Llwgwobrwyo swyddog tramor
- Methiant gan sefydliad masnachol i atal llwgwobrwyfaeth (trosedd gorfforaethol)

Mae llwgwobrwyo yn gysyniad eang ac mae'n cynnwys cynnig, addo neu roi mantais ariannol neu fantais arall er mwyn cymell rhywun i gyflawni swyddogaeth gyhoeddus neu weithgarwch busnes mewn modd amhriodol neu eu gwobrwyo am wneud hynny. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi ystyriaeth arbennig i feysydd gweithgarwch penodol, gan gynnwys lletygarwch a rhoddion.

Enghraifft o hyn yw rhywun yn rhoi mantais i un o weithwyr y Cyngor am beidio â gwneud eu gwaith yn briodol. Mae cynnig neu addo llwgwobr yn drosedd, nid oes rhaid rhoi taliad neu wobwr; mae derbyn llwgwobr yn drosedd, yn ogystal â chytuno i dderbyn llwgwobr, neu ofyn am un. Gallai'r fantais gynnwys arian, tocynnau cyngerdd neu unrhyw fath arall o rodd neu letygarwch. Mae enghreifftiau'n cynnwys rhywun yn cynnig arian yn gyfnewid am:

- Beidio â gwirio cywirdeb cais am fudd-daliadau
- Darparu gwybodaeth gyfrinachol yn gysylltiedig â phroses dendro
- Dylanwadu ar un o ganlyniadau'r Cyngor e.e. llobio ar ran cwmnïau preifat

Mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i atal llwgwobrwyo a gallai wynebu dirwy am beidio â gwneud hynny. Mae'n ddyletswydd ar staff i roi gwybod am unrhyw amheuan sydd ganddynt ynghylch camymddygiad ariannol neu broffesiynol. Y gosb am fod yn gysylltiedig â llwgwobrwyo yw hyd at 10 mlynedd yn y carchar a / neu ddirwy ddiderfyn.

⁸ [Strategaeth Atal Twyll Gweithredol y Llywodraeth - Government Counter Fraud Functional Strategy 2024-2027](#)

Llygredd

Er nad oes diffiniad cyfreithiol o beth yw llygredd, mae llygredd yn aml yn cael ei ystyried fel rhagflaenydd i llwgwobrwyo ac mae Llywodraeth Ei Fawrhydi yn defnyddio'r diffiniad a ddatblygwyd gan y Swyddfa Gartref.⁸

Yn aml mae llygredd yn cael ei ystyried fel rhagflaenydd i llwgwobrwyo ac mae'n cael ei ddiffinio fel:

“...cam-drin pŵer a roddwyd i unigolyn er budd personol sydd fel arfer yn torri cyfreithiau, rheoliadau, safonau uniondeb a/neu safonau ymddygiad proffesiynol.”

Mae llygredd, neu rywun sy'n 'llwgr' yn ymwneud ag ymddygiad ac mae'n golygu diffyg uniondeb neu onestrwydd (ac fe all gynnwys llwgwobrwyo) neu gamddefnyddio statws i sicrhau mantais anghyfreithlon.

Defnyddir y term i ddisgrifio rhywun sy'n cymryd rhan mewn twyll, lladrad, gwyngalchu arian ac arferion troseddol neu niweidiol posib eraill lle byddant yn ymddwyn yn groes i ddiddordebau'r Cyngor er mwyn sicrhau mantais iddyn nhw eu hunain neu i eraill.

Er enghraifft:

- Camddegongli gwybodaeth am berfformiad yn fwriadol
- Derbyn arian neu rodd yn gyfnewid am ddyfarnu contract
- Dwyn asedau (gliniaduron, offer)
- Rhoi gwybodaeth sensitif i drydydd parti er mwyn rhoi mantais iddynt mewn proses dendro
- Peidio datgelu gwrthdaro buddiannau er mwyn sicrhau mantais ariannol
- Defnyddio eu dylanwad i sicrhau swydd i ffrindiau / teulu.

Atodiad 2 – Cyflawni'r Cynllun Gweithredu Atal Twyll, Llwgwobrwyo a Llygredd 2022-2025

Tudalen 62

Mater / Risg	Gweithredu	Gan Bwy	Pryd	Statws Presennol
Mae'r risg o 'fygythiad mewnol' wedi cynyddu dros hanner ers 2021	Byddwn yn cynnal adolygiad archwilio mewnol o'r trefniadau ar gyfer datgan gwrthdaro buddiannau posib yn ystod 2022-23.	Archwilio Mewnol	Mawrth 2023	Paratowyd adroddiad drafft anffurfiol a'i rannu gyda'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151, a'r Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid Corfforaethol. Fodd bynnag, mae'r gwaith wedi'i roi o'r neilltu am y tro oherwydd y rhaglen STAR i wella prosesau caffael o fewn y Cyngor. Mae'n cynnwys ffrwd gwaith i ddatblygu gofynion Datgan Diddordebau, fel eu bod yn fwy cadarn ac yn cael eu hawdurdodi trwy'r Rheolau Gweithdrefn Caffael. Bydd templed diwygiedig yn cael ei ddatblygu i adlewyrchu arfer orau, a chytunir pryd a sut y dylid defnyddio'r datganiadau hyn, a bydd yn cael ei gynnwys mewn prosesau caffael ac yn y Llawlyfr Caffael.
Mae Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl wedi cael eu nodi gan yr FFCL fel un o'r prif risgiau o dwyll mewn llywodraeth leol	Byddwn yn cynnal adolygiad archwilio mewnol o'r trefniadau ar gyfer rheoli'r risgiau o dwyll yn gysylltiedig â Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn ystod 2023-24.	Archwilio Mewnol	Mawrth 2024	Cwblhawyd. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ebrill 2024 .
Twyll tenantiaeth yw'r twyll sy'n tyfu gyflymaf yn y DU	Er bod y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn nodi fod y risg o dwyll tenantiaeth, yn gyffredinol, yn isel ar Ynys Môn, byddwn yn gweithio gyda'r Fenter Twyll Genedlaethol i nodi:	Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â'r Rheolwr Gwasanaeth Tai Cymunedol,	Mawrth 2023	Cwblhawyd. Trosglwyddwyd data a barwyd fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol i'r Gwasanaeth Tai a chafodd ei ymchwilio. Gweler Adroddiad Canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol 2022-23 .

Mater / Risg	Gweithredu	Gan Bwy	Pryd	Statws Presennol
	<ul style="list-style-type: none"> achosion lle mae'n ymddangos fod unigolyn yn byw mewn dau gyfeiriad gwahanol, sy'n awgrymu efallai bod tenantiaid yn gosod eu heiddo i rywun arall neu'n dal mwy nag un denantiaeth achosion lle nad yw'r cyngor wedi cael eu hysbysu am farwolaeth tenant gan olygu nad ydynt wedi cael eu tynnu oddi ar y denantiaeth achosion lle mae'n ymddangos fod unigolyn wedi cofrestru ar y rhestr aros gan ddefnyddio cyfeiriad gwahanol i'r un a gofnodir ar y system rhenti tai, gan awgrymu nad ydynt wedi hysbysu'r cyngor am newid yn eu hamgylchiadau, neu eu bod wedi darparu gwybodaeth ffug. 	Gwasanaethau Tai		<p>Cwblhawyd Archwiliad Mewnol hefyd, mewn perthynas â Rheoli'r Risg o Dwyll Tenantiaeth, ym mis Medi 2023 a ddaeth i'r casgliad fod trefniadau digonol ar waith gan y Gwasanaeth Tai i reoli'r risg o dwyll tenantiaeth tai, a bod rheolaethau sylfaenol ar waith i rwystro a lliniaru'r risg o dwyll wedi'u darparu o fewn polisiau a chontractau'r gwasanaeth. Er hynny, roedd rhai gwendidau cymedrol o safbwynt llywodraethu ac roedd lle i wella rhai rheolaethau mewnol, ac fe wnaethom godi pum mater i reolwyr eu hystyried.</p> <p>Rydym yn parhau i ddarparu cymorth i'r Rheolwr Gwasanaeth Tai Cymunedol, Gwasanaethau Tai, gan gynnwys darparu cyngor ac arweiniad ar bolisi Twyll Tenantiaeth y Gwasanaethau Tai.</p>
Gostyngiad person sengl y dreth gyngor yw'r ail faes twyll sy'n tyfu gyflymaf yn y DU	<p>Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau er mwyn cynorthwyo gydag adolygiadau rheolaidd o ostyngiadau pobl sengl.</p> <p>Byddwn hefyd yn trosglwyddo canlyniadau'r data a barwyd mewn perthynas â chynllun gostyngiadau'r dreth gyngor ar gyfer pobl sengl a'r gofrestr etholiadol fel rhan o ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer 2022-24.</p>	Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â'r Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau	Parhaus Mawrth 2023	Cwblhawyd. Trosglwyddwyd y data a barwyd i'r Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau. Er hynny, oherwydd blaenoriaethau eraill, nid yw'r gwasanaeth wedi ymchwilio i'r data a barwyd. Cyflwynwyd dau adroddiad ar gynnydd y gwaith yn gysylltiedig â'r Fenter Twyll Genedlaethol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Rhagfyr 2023 a Gorffennaf 2024 .
Amcangyfrifir bod consesiynau parcio i'r anabl (Cynllun	Byddwn yn gweithio gyda Cyswllt Môn i gryfhau ein gweithgareddau atal twyll yn y maes hwn.	Pennaeth Archwilio a risg ar y cyd â Rheolwr Profiad y Cwsmer	Ar waith	Cwblhawyd. Gweithio gyda Cyswllt Môn i sicrhau bod prosesau rheoli mewnol yn cael eu cryfhau er mwyn sicrhau bod gweinyddwyr 'Bathodynau Glas' yn gallu croesgyfeirio

Mater / Risg	Gweithredu	Gan Bwy	Pryd	Statws Presennol
Bathodynau Glas) yn gyfrifol am 17% o'r holl achosion o dwyll yn y sector cyhoeddus	Byddwn hefyd yn trosglwyddo canlyniadau data a barwyd mewn perthynas â chonhesiynau parcio i'r anabl a phobl a fu farw o ymarfer paru data y Fenter Twyll Genedlaethol 2022-23.	Cyswllt Môn, Trawsnewid Corfforaethol	Mawrth 2023	manylion deiliaid bathodynau glas gyda chofnodion marwolaethau, gan sicrhau fod y bathodynau'n cael eu canslo'n brydlon. Rhagfyr 2023 .
Caffael oedd un o'r meysydd lle'r oedd y canfyddiad o dwyll ar ei uchaf yn 2019-20	Byddwn yn gweithio gyda'r Rheolwr Caffael i roi'r cynllun gweithredu ar waith yn dilyn yr adolygiad archwilio mewnol ar 'Reoli'r Risg o Dwyll a Llygredd ym maes Caffael' a gynhaliwyd ym mis Awst 2022.	Pennaeth Archwilio a Risg	Mawrth 2023	Mae'r gwaith yn mynd rhagddo. Mae dau o'r chwech 'Mater/Risg' yn y Cynllun Gweithredu yn parhau i fod angen sylw. <ol style="list-style-type: none"> 1. Ni sefydlwyd y Gweithgor Atal Twyll eto. 2. Mae system ar gyfer adrodd, yn gyfrinachol, am dwyll posib neu wirioneddol yn cael ei datblygu gyda Thîm y We a bydd yn rhan o'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmer (CRM). Bwriedir rhoi'r system ar waith ym mis Tachwedd 2024.
Mae prosesau prynu i dalu yn agored i dwyll oherwydd bod nifer uchel o daliadau'n cael eu prosesu, maent yn cynnwys cyflenwyr amrywiol, mae heriau staffio'n bodoli ac maent yn cynnwys	Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Tîm Credydwy'r i nodi ac atal gwallau a thwyll, gan gynnwys trwy ddadansoddi data (monitro parhaus) a chyhoeddi rhybuddion gan y Rhwydwaith Atal Twyll Cenedlaethol (NAFN) a rhybuddion twyll eraill.	Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â'r Rheolwr Tîm Cyflogau a Thaliadau	Ar waith	Ar waith. Mae monitro parhaus yn digwydd bob blwyddyn. Cyhoeddwyd adroddiad ym Medi 2024 a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Rhybuddion NAFN a gyhoeddwyd – gweler Atodiad 3 .


Mater / Risg	Gweithredu	Gan Bwy	Pryd	Statws Presennol
trafodion gwerth uchel				
Bod â threfniadau cadarn a chefnogaeth y pwyllgor gwaith i sicrhau fod mesurau atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn cael eu gwreiddio ym mhob rhan o'r sefydliad.	<p>Bydd rhoi fframwaith atal twyll corfforaethol ar waith, sy'n darparu ystod lawn o elfennau lefel uchel, yn cyfrannu at sicrhau fod gan y Cyngor strategaeth atal twyll effeithiol. Mae gan y Cyngor fframwaith cadarn o weithdrefnau a pholisïau, a gyda'i gilydd maent yn gweithredu fel rhwystr effeithiol yn erbyn gweithgareddau twyllodrus ac yn darparu ffordd o adrodd am dwyll a llygredd, neu eu canfod. Felly, byddwn yn cynnal:</p> <ul style="list-style-type: none"> • rhaglen ddiweddarau polisïau gynhwysfawr • gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth am atal twyll • pecyn e-ddysgu 	Pennaeth Archwilio a Risg	Rhagfyr 2023	<p>Ar waith:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd y polisïau wedi cael eu diweddarau erbyn diwedd 2024/25. • Darparwyd rhaglen hyfforddiant dros wythnos gyfan ym mis Rhagfyr 2023 a chynhaliwyd dwy sesiwn ychwanegol ym mis Mawrth 2024. • Datblygwyd pecyn e-ddysgu a bydd yn cael ei gyflwyno i gyd-daro â'r Wythnos Ryngwladol Ymwybyddiaeth o Dwyll, 17 – 23 Tachwedd 2024
Nodi, asesu a deall y risgiau o dwyll yw conglfaen trefniadau atal twyll effeithiol	<p>Ar y cyd â gwasanaethau, byddwn yn datblygu tair ffrwd waith allweddol fydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ceisio nodi'r risgiau twyll o fewn y Cyngor • asesu gweithgareddau rheoli twyll a'u heffeithiolrwydd, a • neilltuo digon o adnoddau i ymchwilio a chanfod twyll pan dderbynnir adroddiadau am dwyll <p>Bydd gweithgor atal twyll yn cael ei ddatblygu i helpu i nodi'r risg o dwyll o fewn y Cyngor.</p> <p>Byddwn yn gweithio gyda'r grŵp i ddatblygu asesiad o'r risg o dwyll er mwyn nodi twyll posib y gallai gwasanaethau fod yn agored iddo. Bydd yr asesiad yn amcangyfrif effaith bosib unrhyw dwyll a pha mor debygol ydyw o ddigwydd. Bydd canlyniadau'r asesiadau'n caniatáu i'r Cyngor</p>	Pennaeth Archwilio a Risg	Rhagfyr 2023	Mae sefydlu Gweithgor Atal Twyll yn hanfodol ar gyfer y weithred hon. Cyflwynir cynnig i'r Tîm Arweinyddiaeth yn 2024 fydd yn gofyn am eu cefnogaeth i sefydlu'r grŵp.

Mater / Risg	Gweithredu	Gan Bwy	Pryd	Statws Presennol
	ddeall yn well beth yw'r bygythiadau o dwyll sy'n ei wynebu. Bydd yr asesiadau'n cael eu defnyddio hefyd fel adnodd er mwyn helpu i ganolbwyntio adnoddau ar y risgiau twyll mwyaf perthnasol.			
Yn aml, atgyfeiriadau ymatebol yw prif ffynhonnell gwaith y Tîm Archwilio Mewnol.	Yn aml mae atgyfeiriadau'n cael eu gwneud gan fod y cyhoedd neu weithwyr yn effro a dyna sy'n caniatáu i'r mater gael ei ganfod. Byddwn yn edrych ar ddarparu adnodd adrodd am dwyll ar gyfer staff a'r cyhoedd er mwyn iddynt adrodd am bryderon.	Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â Rheolwr y Tîm TG	Mehefin 2023	Ar waith. Gohiriwyd y gwaith gan fod Tîm y We yn gweithio ar y System Rheoli Cysylltiadau Cwsmer (CRM). Datblygwyd system ar gyfer adrodd am dwyll ac mae'n cael ei phrofi ar hyn o bryd gyda chymorth Rheolwr Busnes a Strategaeth y Gwasanaeth Adnoddau. Rhagwelir y bydd y system yn cael ei chyflwyno i gyd-daro â'r Wythnos Ryngwladol Ymwybyddiaeth o Dwyll, 17-23 Tachwedd 2024.
Gwneud y defnydd gorau o wybodaeth a thechnolegau trwy gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol	Byddwn yn cymryd rhan yn yr ymarferion a gynhelir yn flynyddol a bob dwy flynedd gan y Fenter Twyll Genedlaethol, sy'n defnyddio data a ddarperir gan tua 1,200 o sefydliadau sy'n cymryd rhan o'r sector cyhoeddus a phreifat, er mwyn atal a chanfod twyll. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data electronig oddi fewn a rhwng cyrff sector cyhoeddus a phreifat ac mae'r cyrff hyn yn cynnwys awdurdodau heddlu, byrddau prawf lleol, awdurdodau tân ac achub, yn ogystal â chynghorau lleol a nifer o gyrff sector cyhoeddus. Mae ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol yn chwarae rhan bwysig wrth amddiffyn y pwrs cyhoeddus rhag y risg o dwyll.	Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â gwasanaethau	Ar waith	Ar waith. Gweler Adroddiad Canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol 2022-24 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Rhagfyr 2023 a Gorffennaf 2024 . Mae'r amserlen ar gyfer ymarfer 2024-2026 newydd gael ei rhyddhau a bydd data'n cael ei lwytho ym mis Hydref 2024.
Hyrwyddo diwylliant atal twyll	Byddwn yn hyrwyddo diwylliant atal twyll o fewn y Cyngor trwy roi cyhoeddusrwydd ar y cyfryngau cymdeithasol i effaith twyll ar y Cyngor a'r gymuned.	Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â'r Tîm Cyfathrebu Corfforaethol	Ar waith	Heb gychwyn. Er bod y rhaglen o hyfforddiant ymwybyddiaeth wedi'i darparu, a rhybuddion y Rhwydwaith Cenedlaethol Atal Twyll (NAFN) wedi cael eu cylchredeg, nid yw'r rhaglen gyfathrebu fwy cyffredinol wedi cychwyn eto.

Mater / Risg	Gweithredu	Gan Bwy	Pryd	Statws Presennol
Codi ymwybyddiaeth	Y ffordd orau o atal twyll yw trwy rannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth. Felly, ar y cyd â'r Tîm Hyfforddi a Datblygu, byddwn yn cynnal digwyddiadau rheolaidd er mwyn codi ymwybyddiaeth o dwyll, gan gynnwys cyhoeddi cylchlythyron, cynnal sesiynau hyfforddi a sesiynau briffio.	Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â'r Rheolwr Hyfforddi a Datblygu	Ar waith	Ar waith. Darparwyd rhaglen hyfforddiant dros wythnos gyfan ym mis Rhagfyr 2023, a chynhaliwyd dwy sesiwn ychwanegol ym mis Mawrth 2024. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r darparwr er mwyn darparu rhagor o sesiynau yn hwyrach ymlaen yn 2024. Bydd y pecyn e-ddysgu a'r system adrodd am dwyll yn cael eu lansio i gyd-daro â'r Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Dwyll, 17-23 Tachwedd 2024.
Adrodd am Dwyll	Mae angen rhoi gwybod i'r tîm Archwilio Mewnol am bob digwyddiad sy'n gysylltiedig â thwyll. Byddwn yn cyflwyno canlyniadau ymchwiliadau a gwersi i'w dysgu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Tîm Arweinyddiaeth.	Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â gwasanaethau	Ar waith	Ar waith. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n derbyn gwybodaeth trwy'r Adroddiad Atal Twyll, Llwgrobwro a Llygredd Blynyddol a'r Diweddariadau Archwilio Mewnol sy'n cael eu cyflwyno i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
Cydweithio, dysgu gwersi a chau'r bwllch	Byddwn yn parhau i gydweithio o fewn rhanbarth gogledd Cymru i yrru gwelliannau mewn gweithgarwch atal twyll, gan gynnwys mynd i'r afael â 15 argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2020. Byddwn hefyd yn parhau i weithio tu hwnt i ffiniau cenedlaethol er mwyn cydweithio gydag Is-Grŵp Atal Twyll Prif Swyddogion Archwilio'r Gogledd Orllewin, er mwyn dysgu gwersi, rhannu arfer dda a chau'r bwllch.	Pennaeth Archwilio a Risg	Ar waith	Ar waith. Mae Gweithgor Atal Twyll Partneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru wedi cwblhau'r gwaith o ddatblygu templed i fynd i'r afael â 15 argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol. Bydd y Grŵp yn parhau i gyfarfod er mwyn rhannu gwybodaeth, trefnu hyfforddiant a thrafod risgiau sy'n dod i'r amlwg.
Amddiffyn y Cyngor a'i breswylwyr	Er mwyn sicrhau fod ein strategaeth atal twyll yn cyd-fynd â chyfrifoldebau diogelu'r Cyngor i warchod yr unigolion mwyaf bregus yn ein cymunedau, byddwn yn gweithio'n agos â thimau gofal i ddatblygu dulliau ar y cyd i nodi'r arfer orau ar gyfer atal twyll ym maes gofal cymdeithasol.	Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol	Ar waith	Nid yw'r gwaith wedi cychwyn eto.

Atodiad 3 – Rhybuddion y Rhwydwaith Cenedlaethol Atal Twyll⁹

Mae'r graff isod yn amlygu amrywiaeth a chwmpas y rhybuddion a dderbyniwyd ac a ddsbarthwyd o fewn y Cyngor yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf:



⁹ Mae'r Rhwydwaith Cenedlaethol Atal Twyll (NAFN) yn sefydliad sector cyhoeddus sy'n darparu gwasanaeth data a gwybodaeth a Chyngor Bwrdeistref Fetropolitanidd Tameside sy'n gyfrifol amdano ar hyn o bryd. Sefydlwyd NAFN yn 1997 gan grŵp craidd o awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr er mwyn cydweithio i gyfnewid gwybodaeth er mwyn mynd i'r afael â thwyll ar hyd a lled y wlad. Ar hyn o bryd mae bron i 90% o awdurdodau lleol yn aelodau, ynghyd ag awdurdodau cyhoeddus cysylltiedig, gan gynnwys darparwyr tai cymdeithasol. Mae NAFN yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau data a gwybodaeth. Ynghyd â'n cydweithwyr yn yr adran Safonau Masnach, rydym yn defnyddio NAFN at bob math o ddibenion. Yn benodol, rydym yn defnyddio gwasanaeth NAFN i rybuddio cydweithwyr ynglŷn ag achosion o dwyll o fewn y sector yng Nghymru a Lloegr. Mae'r rhybuddion hyn wedi bod yn allweddol o ran cynyddu ymwybyddiaeth swyddogion, a'r Tîm Taliadau yn benodol, ynglŷn ag achosion o dwyll yn y sector ar hyn o bryd.

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	19 Medi 2024
Pwnc:	Diweddariad Archwilio Mewnol
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru
Awdur yr Adroddiad:	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru
<p>Natur a Rheswm dros Adrodd:</p> <p>Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys gofyniad penodol fod y Pwyllgor yn goruchwyllo trefniadau archwilio mewnol y Cyngor fel rhan o'r ddyletswyddau deddfwriaethol yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (3.4.8.10.1).</p> <p>Mae gofyn i'r Pwyllgor ystyried y diweddariadau ar waith archwilio mewnol yn cynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n achosi pryder, ymatebion rheolwyr a'r camau sydd wedi eu cymryd o ganlyniad i waith archwilio. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol fel y gofynnwyd, gan gynnwys effeithlonrwydd rheoliadau mewnol a bydd yn monitro gweithrediad camau a gytunwyd arnynt (3.4.8.10.10)</p> <p>Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni gofynion Datganiad Sefyllfa CIPFA: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu 2022, yn benodol, mewn perthynas â swyddogaeth archwilio mewnol yr awdurdod a Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus, sy'n nodi'r angen i'r prif swyddog gweithredol archwilio adrodd ar wybodaeth am gynydd a chanlyniadau gweithgareddau archwilio (Safon 2060).</p>	

1. Rhagarweiniad

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn diweddarau'r Pwyllgor am y sefyllfa fel ag yr oedd hi ar 31 Awst 2024 ynghylch yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 30 Mehefin 2024, llwyth gwaith cyfredol y gwasanaeth archwilio mewnol a'n blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canol.

2. Argymhelliad

- 2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried:

- canlyniad y gwaith Archwilio mewnol,
- y sicrwydd a ddarparwyd ac
- ein blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

Diweddariad Archwilio Mewnol

Medi 2024



Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS

Pennaeth Archwilio a Risg



Cynnwys

Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf	1
Rheoli Taliadau Debyd Uniongyrchol	2
Gwaith Monitro Parhaus - Taliadau Dyblyg	2
Gwaith ar y Gweill	3
Camau Gweithredu sy'n Weddill	3
Blaenoriaethau	4
Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig	4
Blaenoriaethau Tymor Hwyl	4

Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf

- Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o adroddiadau sicrwydd a gwblhawyd ers y cyfarfod ym mis Gorffennaf 2024, gan gynnwys y radd sicrwydd gyffredinol a nifer y materion/risgiau a godwyd.
- Rydym wedi cwblhau **dau** ddarn o waith sicrwydd yn ystod y cyfnod, ac maent wedi'u crynhoi isod. Ceir trafodaeth fwy manwl arnynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad:

Teitl	Lefel Sicrwydd	Critigol	Sylweddol	Cymedrol
Rheoli Taliadau Debyd Uniongyrchol	Rhesymol	0	0	3
Gwaith Monitro Parhaus - Taliadau Dyblyg	Rhesymol	0	0	0

Rheoli Taliadau Debyd Uniongyrchol

Sicrwydd Rhesymol	Materion/Risgiau	
	0	Critigol
	0	Sylweddol
	3	Cymedrol

- Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:
A oes trefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod taliadau debyd uniongyrchol yn cael eu prosesu'n gywir, yn llawn, ar yr adeg gywir, ar y diwrnod cywir ac unwaith yn unig?
- Daeth ein hadolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer prosesu taliadau debyd uniongyrchol ym maes Incwm, Rhenti Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol a Hamdden i'r casgliad bod y rheolaethau mewnol yn gadarn ar y cyfan. Mae gwiriadau awtomatig a gwiriadau ansawdd gan staff yn sicrhau bod y data a thaliadau debyd uniongyrchol yn gywir, ac ni ddaethom o hyd i wallau. Er hynny, nodwyd rhai risgiau gweithredol ac aneffeithlonrwydd cymedrol:
 - Taliadau Debyd Uniongyrchol Di-bapur: Dim ond y gwasanaeth Rhenti Tai sy'n cynnig opsiwn di-bapur, sy'n lleihau gwallau a chostau. Gellid gwella effeithlonrwydd a chasglu mwy o incwm pe byddai'r opsiwn yma ar gael ym mhob gwasanaeth.
 - Taliadau Debyd Uniongyrchol Gofal Cartref: Mae'r broses taliadau debyd uniongyrchol gofal cartref yn aneffeithlon, gan achosi gordaliadau a mwy o waith gweinyddol. Mae gwelliannau yn y maes hwn wrthi'n cael eu trafod.
 - Gwahanu Dyletswyddau: Mae diffyg gwahanu dyletswyddau fel rhan o'r broses taliadau debyd uniongyrchol, yn enwedig ym maes Incwm a Rhenti Tai, ac felly mae'r risg o wallau a thwyll y uwch. Argymhellir bod mesurau cydadferol yn cael eu rhoi ar waith.
- Er y materion hyn, mae'n adolygiad yn rhoi lefel resymol o sicrwydd o ran llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth effeithiol, ac mae cynllun gweithredu wedi cael ei gytuno er mwyn gwella'r trefniadau.

Gwaith Monitro Parhaus - Taliadau Dyblyg

Sicrwydd Rhesymol	Materion/Risgiau	
	0	Critigol
	0	Sylweddol
	0	Cymedrol

- Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:
A yw'r Cyngor wedi talu anfonebau sydd eisoes wedi cael eu talu?¹
- Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod y Tîm Taliadau wedi gwella ei fesurau rheoli mewnol, gan leihau taliadau dyblyg. Er bod ambell daliad dyblyg wedi dod i'r fei, roedd y taliadau hyn o ganlyniad i broblemau parhaus megis cyfrifon credydwy'r dyblyg, gwallau wrth sganio anfonebau, a diffyg craffu gan swyddogion a oedd wedi awdurdodi'r taliadau. Er mai araf fu'r cynnydd o ran adennill y taliadau dyblyg a ganfuwyd yn flaenorol, mae gan y tîm rolau a gweithdrefnau pendant erbyn hyn, ac mae disgwyl iddynt gysylltu â'r cyflenwyr perthnasol yn fuan iawn.
- Daethpwyd o hyd i 12 taliad dyblyg tebygol werth cyfanswm o £42,424, ac mae £37,720 eisoes wedi cael ei adennill. Bydd y Tîm Taliadau'n ymchwilio i'r £4,704 sydd yn weddill. Mae'r nifer isel o daliadau dyblyg yn cefnogi honiad y rheolwyr bod y mesurau rheoli mewnol yn gadarnach erbyn hyn. Mae'r prif welliannau'n cynnwys trefniadau dilysu anfonebau gwell, mwy o graffu a dadansoddiad manylach o'r adroddiadau taliadau dyblyg.
- Bydd y mesurau rheoli hyn yn cael eu hatgyfnerthu ymhellach yn sgil y diweddariadau system sydd ar y gweill a'r meddalwedd gwybodaeth busnes newydd drwy alluogi'r tîm i ganfod dyblygiadau posib yn fanwl gywir. Fodd bynnag, er bod canlyniad ein hadolygiad yn gadarnhaol, ni ellir dweud â sicrwydd nad oedd unrhyw ddyblygiadau eraill yn ystod y cyfnod profi. Cynhelir adolygiad pellach ymhen 12 mis i barhau â'r gwaith monitro a gwella.

¹ Rhwng Awst 2022 a Gorffennaf 2024

Gwaith ar y Gweill

10. Mae'r gwaith canlynol ar y gweill ar hyn o bryd:


Maes	Rheswm ar yr Archwiliad	Cam
Y Fenter Twyll Genedlaethol	Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-2025	Gwaith yn mynd rhagddo
Datganiadau o Ddiddordeb	Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-2025	Wedi'i ohirio
Goruchwyllo Partneriaethau	Strategaeth Archwilio Mewnol 2023-24	Adroddiad Drafft 17/06/24 f1 26/07/24 f2 TA
Gofal Plant a Darpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg	Ar gais y Prif Weithredwr	Gwaith Maes
Mesurau Gwrth-dwyll ym maes ad-daliadau Refeniw	Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-2025 (risg sy'n datblygu)	Gwaith Maes
Rheoli Asedau'r Cyngor	Cofrestr Risgiau Strategol (YM14)	Gwaith Maes
Ymchwiliad - Gwasanaethau Eiddo	Cwyn	Gwaith Maes
Ymchwiliad - Gwasanaethau Tai	Cwyn	Gwaith Maes
Archwiliad TG: Dadansoddiad o'r Bylchau - Fframwaith Asesu Seiberddiogelwch	Cofrestr Risgiau Strategol (YM3)	Gwaith Maes
Archwiliad TG: Safonau Diogelwch Data'r Diwydiant Cardiau Talu (PCI DSS)	Cofrestr Risgiau Strategol (YM3)	Gwaith Maes
Recriwtio a Chadw	Cofrestr Risiau Strategol (YM3)	Gwaith Maes
Strategaeth Dai'r Cyngor	Cofrestr Risgiau Strategol (YM9)	Gwaith Maes

Tudalen 73

Camau Gweithredu sy'n Weddill

- Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi gwasanaethau i roi sylw i'r holl 'Faterion / Risgiau / Cyfleoedd' a godwyd a rhoi'r holl gamau gweithredu sy'n weddill ar waith.
- Ar 31 Awst 2024, roedd un mater / risg / cyfle cymedrol yn hwyr, fel y gwelir isod.
- Mae'r weithred hon yn ymwneud â mater 'cymedrol' a godwyd yn ystod yr adolygiad 'Taliadau Cynnal Cyflenwyr a Thaliadau Dyblyg' ynglyn ag adennill taliadau dyblyg i gredydwy'r a nodwyd yn ystod yr adolygiad gwreiddiol ac a drafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad.
- Cyflwynir adroddiad ar wahân i'r cyfarfod hwn ar yr holl gamau gweithredu sy'n weddill.

Materion / Risgiau / Cyfleoedd Hwyr Fesul Gwasanaeth



Blaenoriaethau

Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig

15. Mae ein gwaith presennol i'w weld yn yr adran [Gwaith ar y Gweill](#) yn gynharach yn yr adroddiad. Rydym yn gwneud cynnydd cyson o ran ein Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol 2024-25 a Strategaeth Gwrth-dwyll, Llgrwobrwyo a Llygredd 2022-2025.
16. Fel rhan o'n gwaith gwrth-dwyll, rydym wedi bod yn datblygu adnodd adrodd am dwyll gyda'r Tîm TG. Rydym hefyd wedi comisiynu ac yn addasu modiwl e-ddysgu ar wrth-dwyll ar ran y Tîm Hyfforddi a Datblygu. Rydym hefyd yn cynorthwyo'r Gwasanaeth Tai gyda'i bolisi Twyll Tenantiaeth.

Blaenoriaethau Tymor Hwyr

Adolygiad o Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus

17. Cyhoeddodd y Bwrdd Safonau Archwilio Mewnol Rhyngwladol (IIASB) [Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang](#) newydd ar 9 Ionawr 2024, a byddant yn dod i rym yn dilyn cyfnod pontio o flwyddyn. Mae'r Gosodwr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (RIASS) wedi cytuno y bydd Sector Cyhoeddus y DU yn mabwysiadu'r safonau hyn ac mae Bwrdd Ymgynghori ar Safonau Archwilio Mewnol y DU (IASAB) wedi cael y dasg o'u hadolygu a'u haddasu ar gyfer y sector cyhoeddus. Bydd y safonau newydd, fel y'i dehonglwyd gan yr IASAB, yn dod i rym ar 1 Ebrill 2025, i gyd fynd â blwyddyn ariannol a gofynion llywodraethu'r DU.
18. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn rhan o weithgor a sefydlwyd gan CIPFA i ystyried a chynghori ar eu perthnasedd i sector llywodraeth leol y DU. Bydd y Pwyllgor yn cael gwybod am unrhyw effaith y bydd y safonau yn i gael ar ei waith.

Diweddariad ar Ganllawiau CIPFA a Solace ar Adolygiadau Blynyddol a Datganiadau Llywodraethu Blynyddol

19. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg hefyd yn rhan o Grŵp Cyfeirio a sefydlwyd gan CIPFA i oruchwylio'r gwaith o ddiweddarau'r canllawiau a gyhoeddwyd ar gyfer cyrff llywodraeth leol y DU yn

2016 ar adolygiadau blynyddol a datganiadau llywodraethu blynyddol a chyflwyno argymhellion i CIPFA a Solace.

CYNGOR SIR YNYS MÔN		
Adrodd i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	
Dyddiad:	19 Medi 2024	
Pwnc:	'Materion / Risgiau / Cyfleoedd' sy'n weddill	
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 MarcJones@anglesey.gov.wales	
Awduron yr Adroddiad:	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@anglesey.gov.wales	Nanette Williams Prif Archwilydd NanetteWilliams@anglesey.gov.wales
Natur a Rheswm dros Adrodd: Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sy'n gosod y dyletswyddau cyfreithiol y mae'n rhaid i bwyllgor archwilio o fewn cyngor eu cyflawni, yn enwedig o ran goruchwyltio trefniadau archwilio mewnol yr awdurdod. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cyflwyno cyfrifoldeb ar y pwyllgor i fonitro'r gwaith o weithredu camau cytunedig (3.4.8.10.10). Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariad ar statws y risgiau sy'n weddill y tynnwyd sylw atynt yn ystod yr Archwiliad Mewnol. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cyflawni gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus , sy'n gofyn i'r prif weithredwr archwilio sefydlu proses ddilydol er mwyn monitro a sicrhau bod y camau rheoli wedi'u gweithredu'n effeithiol, neu bod uwch reolwyr wedi derbyn y risg o beidio â chymryd camau. (Safon 2500).		

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae Archwilio Mewnol, ar ran y Cyngor, yn monitro materion a risgiau sydd wedi cael eu hadnabod yn ystod gwaith archwilio drwy ei system olrhain camau, 4action.
- 1.2. Mae'r dangosfwrdd yn rhoi darlun gwir o berfformiad cyfredol mewn perthynas â mynd i'r afael a chamau sy'n weddill, ac mae'n hwyluso'r gwaith o olrhain ac adrodd y wybodaeth hon yn effeithiol. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn rhannu'r dangosfwrdd hwn yn aml gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel rhan o'i hadroddiadau sy'n cynnig diweddariad ar archwilio mewnol.
- 1.3. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gofyn os oes modd derbyn adroddiad manwl ar wahân sy'n amlinellu'r perfformiad cyffredinol o ran mynd i'r afael â chamau archwilio, ddwywaith y flwyddyn. Yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2021, aeth y Pwyllgor blaenorol ati i ystyried a gwneud penderfyniad ynghylch y manylion y dylid eu cynnwys yn yr adroddiad, er mwyn bodloni ei anghenion sicrwydd yn y maes hwn.

2. Argymhelliad

2.1. Fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:

- Ystyried cynnydd y Cyngor mewn perthynas ag ymdrin â'r 'Materion / Risgiau / Cyfleoedd' Archwilio Mewnol sy'n weddill, a phenderfynu a yw hyn yn foddhaol.

Materion / Risgiau / Cyfleoedd sy'n Parhau i fod angen Sylw

Medi 2024

Tudalen 76



Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS

Nanette Williams MSc CMIIA CIA



Cynnwys

Cyflwyniad _____	1
Perfformiad Cyfredol _____	2
Graff 1 – Cyfanswm y Camau sy'n Parhau i fod angen Sylw _____	2
Graff 2 – Camau Gorddyledus _____	2
Graff 3 – Cyfanswm y Materion / Risgiau / Cyfleoedd yn ôl statws _____	3
Graff 4 – Cyfanswm y Materion / Risgiau / Cyfleoedd yn ôl statws (dyledus) _____	3
Graff 5 – Yr holl Faterion / Risgiau / Cyfleoedd sy'n parhau i fod angen sylw fesul blwyddyn _____	4
Atodiad 1: Statws Manwl Materion / Risgiau / Cyfleoedd 'Sylweddol' sy'n Parhau i fod angen Sylw _____	6


Cyflwyniad

1. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn gosod cyfrifoldeb arno i fonitro'r gwaith o weithredu'r camau a gymerwyd gan reolwyr i fynd i'r afael â'r materion a'r risgiau a godwyd gan yr Archwilio Mewnol.
2. Er mwyn rhyddhau'r ddyletswydd hon, gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad manwl yn dangos perfformiad y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r camau sy'n parhau i fod angen sylw ddwywaith y flwyddyn yn ei gyfarfodydd ym mis Ebrill a Medi.
3. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, nid yw Archwiliadau Mewnol bellach yn gwneud argymhellion wrth adrodd 'Materion' a 'Risgiau' ac yn fwy diweddar 'Cyfleoedd'. Er mwyn annog rheolwyr i fod yn atebol am y risgiau hyn, mae'n gyfrifoldeb arnynt i ddatblygu cynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r materion, risgiau a chyfleoedd sydd wedi'u hadnabod, ac rydym yn monitro sut yr ymdriniwyd â'r risgiau hyn.
4. Mae adroddiadau sydd wedi derbyn sicrwydd 'cyfyngedig', neu 'dim' sicrwydd yn destun adolygiad dilyn i fyny ffurfiol gan yr adran Archwilio Mewnol, a rhaid paratoi adroddiad archwilio a darparu sgôr sicrwydd. Rydym yn monitro'r holl 'faterion' a 'risgiau' eraill gan ddefnyddio system olrhain camau corfforaethol y Cyngor (4action).
5. Rydym wedi datblygu a mireinio dangosfwrdd i ddefnyddwyr ar 4action, sy'n dangos darlun gwirioneddol o berfformiad cyfredol o ran mynd i'r afael â champau sy'n parhau i fod angen sylw, ac yn hwyluso'r gwaith o olrhain ac adrodd ar yr wybodaeth hon.
6. Rydym yn monitro camau 'gorddyledus' yn barhaus er mwyn cael diweddariadau gan reolwyr ynghylch y cynnydd o ran mynd i'r afael â hwy yn brydlon.

Perfformiad Cyfredol


7. Mae'r pum graff canlynol yn dangos y camau sy'n parhau i fod angen sylw ar draws y Cyngor fel ac yr oedd pethau ar 31 Awst 2024. Ceir diweddariad statws manwl ar y pum mater/risg sy'n parhau i fod angen sylw yn [Atodiad 1](#) yn ogystal.
8. Dylid nodi na chodwyd unrhyw faterion/risgiau 'coch' neu 'gritigol' yn ystod y flwyddyn, ac nid oes 'materion/risgiau' coch neu 'gritigol' yn parhau i fod angen sylw ar hyn o bryd
9. Ar 31 Mawrth 2024, roeddem yn olrhain 49 cam sy'n parhau i fod angen sylw. Roedd pedwar o'r rhain yn 'sylweddol' (ambr) a 45 yn 'gymedrol' (melyn), fel y gwelir yn Graff 1 isod.

Graff 1 – Cyfanswm y Camau sy'n Parhau i fod angen Sylw




10. Rydym yn parhau i fonitro'r holl gamau a'u holrhain gyda rheolwyr pan mae angen eu cwblhau, er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â nhw. Ar hyn o bryd, mae un cam yr oedd rheolwyr i fod i'w gweithredu erbyn y dyddiad cwblhau, sydd bellach yn 'orddyledus', fel y gwelir yn Graff 2.

Graff 2 – Camau Gorddyledus



11. Mae'r cam yn ymwneud â mater a aseswyd yn 'gymedrol' yn ystod yr archwiliad 'Cynnal Cyflenwyr a Thaliadau Dyblyg' ac adennill nifer fechan o daliadau i gredydwy'r a amlygwyd yn ystod yr archwiliad gwreiddiol.
12. Mae rhagor o wybodaeth ar y modd yr ydym yn mynd ati i adennill y taliadau hyn yn ein hadroddiad Monitro Parhaus – Taliadau Dyblyg sydd wedi'i gynnwys yn niweddariad y Pennaeth Archwilio a Risg.

Graff 3 – Cyfanswm y Materion / Risgiau / Cyfleoedd yn ôl statws



13. Mae Graff 3 yn dangos statws yr holl gamau sy'n parhau i fod angen sylw (waeth beth yw'r dyddiad y cytunodd reolwyr i'w gweithredu). Mae'n dangos fod rheolwyr bellach wedi ymdrin â 81% o'r camau a gytunwyd, ac mae Archwiliad Mewnol wedi dilysu 80%¹.
14. Mae'r 1% sy'n weddill yn ymwneud â'r archwiliad 'Cyrchfan – Tîm Morwrol: Prosesau Incwm'. Byddwn yn cynnal archwiliad dilyn i fyny ar gyfer y maes hwn ym mis Ionawr 2025 a byddwn yn gwirio bod rheolwyr wedi gweithredu'r camau hyn yn llwyddiannus yn ystod y darn hwn o waith.

¹ Mae Archwilio Mewnol yn dilysu pob cam sydd 'wedi cau' i sicrhau ein bod ni'n fodlon bod y camau y mae rheolwyr wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r risg wedi'u nodi.

15. Mae'r camau 'heb eu dechrau' yn ymwneud â sawl archwiliad lle nad yw'r camau sydd wedi cael eu hadnabod wedi cyrraedd eu dyddiadau cwblhau disgwylidig hyd yma. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Archwiliad TG: Rheoli Mynediad Corfforaethol
- Archwiliad TG: Rheoli Cyflenwyr TG
- Gweinyddu'r Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl
- Cyrchfan – Tîm Morwrol: Prosesau Incwm

16. Pan fydd y dyddiadau hyn yn nesáu, byddwn yn mynd ati'n rhagweithiol i gael diweddariadau gan reolwyr er mwyn sicrhau cynnydd.


Graff 4 – Cyfanswm y Materion / Risgiau / Cyfleoedd yn ôl statws (dyledus)



17. I'r gwrthwyneb, mae Graff 4 yn dangos statws yr holl gamau sydd wedi bodloni eu dyddiad targed. Mae'n dangos yr ymdriniwyd â 99% o'r camau a oedd yn ddyledus.

18. Mae Archwiliad Mewnol wedi dilysu'r rhan fwyaf o'r rhain, ond fel y nodwyd uchod, mae'r rheiny sydd angen eu dilysu'n ymwneud ag archwiliad 'Cyrchfan – Tîm Morwrol: Prosesau Incwm'. Mae'r camau a ymddengys yma fel camau 'ar waith' yn orddyledus erbyn hyn, fel y nodir ym mharagraff 11 uchod.
19. O bryd i'w gilydd, byddwn yn ymestyn dyddiadau cwblhau ar gyfer rhai camau, dim ond os yw'r gwasanaeth yn gallu darparu rheswm dilys ar gyfer hynny e.e. mae'n amlwg nad yw'r dyddiad gwreiddiol yn gyraeddadwy, gan fod angen gwneud rhagor o waith er mwyn mynd i'r afael â'r mater/risg/cyfle.

Graff 5 – Yr holl Faterion / Risgiau / Cyfleoedd sy'n parhau i fod angen sylw fesul blwyddyn



	Critigol
	Sylweddol
	Cymedrol

20. Fel y nodir uchod, mae 49 o gamau sy'n parhau i fod angen sylw sydd heb eu cwblhau'n llawn.
21. Mae'r rhain wedi'u gwasgaru rhwng blynyddoedd ariannol 2019/20 a 2024/25. Er bod graff 5 yn dangos bod y mwyafrif yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol, mae tri phrif fater/risg yn dyddio'n ôl i 2019/20 a 2020/21 nad yw rheolwyr wedi ymdrin â hwy'n llawn.
22. Mae'r rhain yn ymwneud â chwblhau trefniadau mapio sicrwydd y Cyngor ac adennill nifer fechan o daliadau dyblyg i gredydwyr, ac mae rheolwyr wrthi'n ymdrin â'r ddau gam gweithredu yma ar hyn o bryd.
23. Mae pob un wedi'u sgorio'n 'gymedrol' neu'n 'felyn' o ran risg blaenoriaeth, a chawsom sicrwydd gan reolwyr:
- Mae'r Cyngor yn y broses o ddiweddarau ei system Rheoli Risg, ac mae Archwilio Mewnol wedi llenwi sicrwydd ar y drydedd linell. Fodd bynnag, mae'r gwaith yn mynd rhagddo er mwyn llenwi sicrwydd ar y llinell gyntaf a'r ail linell.
 - Fel y nodwyd ym mharagraff 11, mae'r gwaith i adennill y taliadau dyblyg a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad gwreiddiol yn mynd rhagddo. Mae rhagor o wybodaeth ar y modd yr ydym yn mynd ati i adennill y taliadau hyn yn ein hadroddiad Monitro Parhaus – Taliadau Dyblyg sydd wedi'i gynnwys yn niweddariad y Pennaeth Archwilio a Risg.

24. Dylid nodi nad oes unrhyw faterion / risgiau / cyfleoedd 'sylweddol' yn dyddio'n ôl ymhellach na 2023/24. Mae hyn yn dangos bod rheolwyr yn blaenoriaethu mynd i'r afael â blaenoriaethau uwch.
25. Yn ogystal, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n mynd i'r afael â'u materion / risgiau / cyfleoedd yn brydlon a llwyddiannus, os na fydd mater/risg / cyfle 'sylweddol' wedi'i ddatrys cyn pen 12 mis o'r dyddiad cwblhau gwreiddiol, gofynnir i berchnogion y camau ddiweddarau'r Pwyllgor ynghylch y rhesymau dros yr oedi mewn mynd i'r afael â'r mater / risg / cyfle.
26. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw faterion / risgiau / cyfleoedd 'sylweddol' neu sydd yn dal heb eu datrys ar ôl 12 mis.
27. Ceir diweddariad manwl ar statws y pedwar mater / risg / cyfle 'sylweddol' sydd yn weddill ac sy'n cael eu tracio ar 4action yn [Atodiad 1](#).
28. Byddwn yn ymdrechu i fynd i'r afael â'r holl gamau sy'n parhau i fod angen sylw er mwyn sicrhau y cânt eu cwblhau

Atodiad 1: Statws Manwl Materion / Risgiau / Cyfleoedd ‘Sylweddol’ sy’n Parhau i fod angen Sylw

Tudalen 82

Teitl yr Archwiliad	Blwyddyn yr Archwiliad	Dyddiad Cyflwyno'r Adroddiad	Dyddiad Targed Presennol	Sgôr Sicrwydd yr Adroddiad*	Crynodeb o'r Mater/Risg	Statws Presennol
Adennill Dyledion Treth Gyngor, Ardrethi Annomestig a Mân Dyledion	2023/24	Medi 2023	01/10/24	Cyfyngedig	<p>Mae nifer o fân ddyledion sydd heb gael eu holrhain ers nifer o flynyddoedd.</p> <p>Mae risg y gall peidio â chael proses systematig yn ei lle i adolygu hen fân ddyledion yn rheolaidd, arwain at symiau segur a cholled ariannol i'r Cyngor.</p>	<p>75% o'r cam wedi'i gwblhau</p> <p>Lle bo modd, mae cyfleusterau talu ymlaen llaw yn eu lle e.e. drwy'r CRM neu dalu â cherdyn. Yn y dyfodol, bydd hyn yn lleihau nifer y mân ddyledion.</p> <p>Mae gwaith ar y gweill i ddadansoddi hen ddyledion ac mae'r Rheolwr Strategaeth Busnes ac Adnoddau yn monitro cynnydd. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, roedd y gwasanaeth wedi adolygu a gweithredu ar fân ddyledion gwerth oddeutu £431k, dyledion Treth Gyngor gwerth £281k a dyledion Ardrethi Annomestig gwerth £518k h.y. wedi eu dileu / cytuno i'w dileu, lle bo hynny'n briodol canslo dyledion, rhoi gorchmynion arwystlo yn eu lle, prosesau anghydfod atebolrwydd neu gamau gorfodi.</p> <p>Mae gwaith yn y maes hwn ar y gweill. Byddwn yn cwblhau adroddiad dilyn i fyny pellach ym mis Hydref 2024 i gadarnhau bod prosesau ar gyfer adolygu heb ddyledion yn barhaus yn cael eu sefydlu a'u gwreiddio.</p>
Adennill Dyledion Treth Gyngor, Ardrethi Annomestig a Mân Dyledion	2023/24	Medi 2023	01/10/24	Cyfyngedig	<p>Mae nifer o ddyledion Treth Gyngor sydd heb gael eu holrhain ers nifer o flynyddoedd.</p> <p>Mae risg y gall peidio â chael proses systematig yn ei lle i adolygu hen ddyledion treth gyngor yn rheolaidd, arwain at symiau segur a cholled ariannol i'r Cyngor.</p>	<p>75% o'r cam wedi'u cwblhau</p> <p>Fel yr uchod.</p>

Teitl yr Archwiliad	Blwyddyn yr Archwiliad	Dyddiad Cyflwyno'r Adroddiad	Dyddiad Targed Presennol	Sgôr Sicrwydd yr Adroddiad*	Crynodeb o'r Mater/Risg	Statws Presennol
Adennill Dyledion Treth Gyngor, Ardrethi Annomestig a Mân Ddyledion	2023/24	Medi 2023	01/10/24	Cyfyngedig	Nid yw'r Cyngor wedi ceisio adennill mân ddyledion drwy'r Llys Sirol ers 2019-20.	<p>50% o'r cam wedi'i gwblhau.</p> <p>Oherwydd pryderon ynglŷn â chywirdeb nodiadau achos hanesyddol y system dyledwyr, ac felly'n gallu i adennill y dyledion hyn, mae rheolwyr wrthi'n trosglwyddo'r cyfrifoldeb o argraffu anfonebau / llythyrau atgoffa a rhybuddion terfynol a llythyrau cyn cymryd camau cyfreithiol am fân ddyledion oddi wrth y Tîm incwm i argraffwyr allanol. Bydd hyn yn rhan o gytundeb presennol ar gyfer y dreth gyngor ac ardrethi annomestig, sy'n cael ei adnewyddu ar hyn o bryd. .</p> <p>Fel y nodir uchod, byddwn yn cwblhau adolygiad dilyn i fyny ffurfiol pellach ym mis Hydref 2024.</p>
Rheoli'r risg o dwyll tenantiaeth	2023/24	Medi 2023	01/01/25	Rhesymol	Nid yw'r Gwasanaeth Tai'n cynnal archwiliadau tenantiaeth cyfnodol/seiliedig ar risg. O bersbectif gwrth-dwyll, mae archwiliadau tenantiaeth yn ffordd effeithiol o liniaru'r risg o feddiannu stoc dai'r Cyngor yn anghyfreithlon neu ei isosod/gadael/camdefnyddio.	<p>50% o'r cam wedi'i gwblhau.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth Tai wedi datblygu polisi a gweithdrefnau twyll tenantiaeth drafft, sy'n cynnwys archwiliadau tenantiaeth rheolaidd yn seiliedig ar risg.</p> <p>Yn dilyn yr ymgynghoriad staff, bydd y polisi'n cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith. Mae'r Gwasanaeth yn bwriadu cynnwys archwiliadau twyll tenantiaeth fel rhan o raglen dargedu flynyddol i archwilio eiddo (oddeutu 10% y flwyddyn) a fydd yn cael ei gwblhau gan Swyddogion Cynnal a Chadw Tai (Ystadau).</p>

*Sgôr sicrwydd presennol – un ai ar adeg yr archwiliad gwreiddiol neu ar ôl yr adolygiad dilynol.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad	19 Medi 2024
Pwnc	ER GWYBODAETH: Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Diweddariad Chwarterol 30 Mehefin 2024
Pennaeth Gwasanaeth	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru
Awdur yr Adroddiad	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru
<p>Natur a Rheswm dros Adrodd</p> <p>O dan Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mae'n ofynnol iddo oruchwylio trefniadau archwilio allanol (3.4.8.11.3) a goruchwylio effeithiolrwydd cysylltiadau rhwng archwilio allanol ac archwilio mewnol ac asiantaethau arolygu neu gyrff perthnasol eraill (3.4.8.11.4). Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor hefyd dderbyn ac ystyried adroddiadau gan unrhyw reoleiddwyr neu arolygwyr eraill, fydd yn ffynhonnell sicrwydd defnyddiol (3.4.8.13.1).</p>	

1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r sefyllfa o ran cyflawni rhaglen waith Archwilio Cymru mewn perthynas â:

- darpariaeth y Crynodeb Archwilio Blynyddol, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2024 ac a fydd yn cychwyn unwaith y bydd y gwaith o gwblhau'r Archwiliad o ddatganiad cyfrifon 2023-24 y Cyngor wedi'i wneud
- gwaith archwilio ariannol ar Ddatganiad Cyfrifon 2023-24, sydd ar y gweill ar hyn o bryd gyda'r bwriad o fod wedi'i gwblhau ym mis Tachwedd 2024
- ardystiad parhaus o Ddychweliadau Grant, yn cynnwys Cyfraniadau Pensiynau Athrawon, Trethi Annomestig a Chymhorthdal Budd-daliadau Tai, y mae'r mwyafrif wedi eu cynllunio i fod wedi eu cwblhau ym mis Tachwedd 2024

- gwaith archwilio perfformiad 2022-23, yn cynnwys Adolygiad Thematig o Ofal heb ei drefnu a gyflwynir i'r pwyllgor hwn ar wahân, a
 - gwaith archwilio perfformiad 2023-24, sy'n cynnwys adolygiadau thematig o Gomisiynu Cynaliadwyedd Ariannol a phrosiect lleol yn dilyn i fyny ar yr archwiliad Safon Ansawdd Tai Cymru o 2018.
- 1.2 Mae'r adroddiad hefyd yn darparu trosolwg o astudiaethau cenedlaethol awdurdodau lleol a gynlluniwyd ac sy'n mynd rhagddynt a ph'un y bwriedir gwneud gwaith maes yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Nid oes unrhyw waith maes wedi'i gynllunio yn y Cyngor ar hyn o bryd ar gyfer yr astudiaethau cenedlaethol.
- 1.3 Yn ogystal, mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r gwaith sy'n cael ei wneud ledled Cymru gan Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru. Nid yw'n manylu ar unrhyw waith penodol yn ymwneud â'r Cyngor.
- 1.4 Mae'r adroddiad yn darparu rhestr o adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ers Mawrth 2023, ynghyd â gwaith sy'n mynd rhagddo ac a gynlluniwyd. Nid oes cyfeiriad penodol at y Cyngor yn unrhyw un o'r rhain.
- 1.5 Yn olaf, mae'r adroddiad yn rhoi manylion am ddigwyddiadau ac adnoddau'r Gyfnewidfa Arfer Dda. Mae'n darparu manylion digwyddiad o'r enw "Pwyllgorau Archwilio: Arferion effeithiol ac effaith bositif" a gynhelir yng Nghanolfan Fusnes Conwy ar 9 Hydref 2024, gyda [dolen](#) i archebu lle petai aelodau yn hoffi mynychu.

2.0 ARGYMHELLIAD

- 2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:
- Ystyried yr adroddiad ac yn nodi'r sicrwydd a ddarperir ynddo.

Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Sir Ynys Môn

Diweddariad Chwarterol: 30 Mehefin 2024

Crynodeb Archwilio Blynyddol

Disgrifiad	Amserlen	Statws
Adroddiad yn crynhoi'r gwaith archwilio a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2024.	Rhagfyr 2024	Bydd y gwaith drafftio yn dechrau ar ôl cwblhau'r Archwiliad o ddatganiad cyfrifon 2023-24 y Cyngor.

Gwaith Archwilio Ariannol

Disgrifiad	Cwmpas	Amserlen	Statws
Archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2023-24 y Cyngor	Byddwn yn cwblhau'r archwiliad statudol o Ddatganiadau Ariannol a Datganiadau Llywodraethiant Blynyddol y Cyngor	Awst – Tachwedd 2024	Ar y gweill
Ardystio Ffurflenni Grantiau: Cyfraniadau Pensiwn Athrawon ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24	Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos nad yw'r ffurflen: <ul style="list-style-type: none">• Heb ei nodi'n deg• Nid yw'n unol â'r telerau ac amodau perthnasol	Archwiliad i'w gwblhau erbyn 19 Tachwedd 2024	Mynd rhagddo

Disgrifiad	Cwmpas	Amserlen	Statws
<p>Ardystio Ffurflenni Grantiau:</p> <p>Ardrethi Annomestig 2023-24</p>	<p>Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos nad yw'r ffurflen:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Heb ei nodi'n deg • Nid yw'n unol â'r telerau ac amodau perthnasol 	<p>Archwiliad i'w gwblhau erbyn 18 Tachwedd 2024</p>	<p>Mynd rhagddo</p>
<p>Ardystio Ffurflenni Grantiau:</p> <p>Cymhorthdal Budd-daliadau Tai 2022-23</p>	<p>Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos nad yw'r ffurflen:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Heb ei nodi'n deg • Nid yw'n unol â'r telerau ac amodau perthnasol 	<p>Archwiliad i'w gwblhau erbyn 30 Tachwedd 2024</p>	<p>Mynd rhagddo</p>
<p>Ardystio Ffurflenni Grantiau:</p> <p>Cymhorthdal Budd-daliadau Tai 2023-24</p>	<p>Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos nad yw'r ffurflen:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Heb ei nodi'n deg • Nid yw'n unol â'r telerau ac amodau perthnasol 	<p>I'w gadarnhau</p>	<p>Mynd rhagddo</p>

Gwaith Archwilio Perfformiad

Gwaith Archwilio Perfformiad 2022-23	Cwmpas	Amserlen	Statws
<p>Sicrwydd ac Aseu Risg</p>	<p>Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu lle y gallai fod angen rhagor o waith archwilio yn y dyfodol mewn cysylltiad â risgiau i'r Cyngor, gan roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.</p> <ul style="list-style-type: none"> Gosod amcanion llesiant 	<p>Chwefror 2023 – Chwefror 2024</p>	<p>Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Mai 2024 a chyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin 2024</p>
<p>Adolygiad Thematig – Gofal Heb ei Drefnu</p>	<p>Adolygiad traws-sector sy'n canolbwyntio ar lif cleifion allan o'r ysbyty. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gofal cymdeithasol i gefnogi'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty, yn ogystal ag atal derbyniadau i'r ysbyty. Bydd y gwaith hefyd yn ystyried pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddarparu atebion tymor canolig i dymor hwy.</p>	<p>Awst 2022 – Hydref 2023</p>	<p>Adrodd o fis Gorffennaf 2024 ymlaen.</p>

Gwaith Archwilio Perfformiad 2023-24	Cwmpas	Amserlen	Statws
Adolygiad thematig – comisiynu	Adolygiad sy'n canolbwyntio ar sut mae trefniadau cyngorau ar gyfer comisiynu, a rheoli contractau yn cymhwyso ystyriaethau gwerth am arian a'r egwyddor datblygu cynaliadwy.	Mawrth – Rhagfyr 2024	Cwmpasu
Adolygiad thematig – Cynaliadwyedd Ariannol	Adolygiad o gynaliadwyedd ariannol cyngorau, gan gynnwys canolbwyntio ar y camau gweithredu, y cynlluniau a'r trefniadau i bontio bylchau ariannu a mynd i'r afael â phwysau ariannol dros y tymor canolog.	Mawrth – Gorffennaf 2024	Gwaith maes wedi'i wneud ym mis Mai 2024 – adroddiad yn cael ei ddrafftio.
Prosiect lleol – Gwaith dilynol ar SATC 2018	Byddwn yn adolygu ymateb y Cyngor i ganfyddiadau ein hadroddiad ar gyfer 2018.	I'w gadarnhau	Cwmpasu

Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol wedi'u cynllunio/ar y gweill

Astudiaeth	Cwmpas	Amserlen	Statws	Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Sir Ynys Môn
Llywodraethu mewn Awdurdodau Tân ac Achub	Adolygu systemau ac effeithiolrwydd llywodraethiant	Medi 2023 – Awst 2024	Gwaith maes wedi'i gwblhau. I'w gyhoeddi ym mis Awst 2024	Na
Digartrefedd	Archwilio sut mae gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r ymateb i ddigartrefedd.	I'w gadarnhau	Cwmpasu	I'w gadarnhau
Cynllunio Cyfalaf mewn Llywodraeth Leol	Archwilio a yw buddsoddiad cyfalaf yn y sylfaen asedau mewn llywodraeth leol yn gallu ateb galw	I'w gadarnhau	Heb ddechrau	I'w gadarnhau

Astudiaeth	Cwmpas	Amserlen	Statws	Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Sir Ynys Môn
Cyfyngiadau ariannol / gwasanaethau llywodraeth leol yn ôl disgrisiwn	Archwilio'r effeithiau posibl a phrosesau penderfynu cynghorau yng nghyd-destun yr egwyddor datblygu cynaliadwy.	I'w gadarnhau	Heb ddechrau	I'w gadarnhau

Estyn

Mae ein harolygwyr cyswllt yn parhau i weithio gyda Thorfaen fel rhan o'n proses ddilynol ar gyfer awdurdod sy'n achosi pryder sylweddol.

Gwnaethom arolygu dau wasanaeth addysg llywodraeth leol yn ystod tymor yr haf, sef Ceredigion a Chaerffili. Cyhoeddir yr adroddiadau ddiwedd mis Awst a dechrau mis Medi yn y drefn honno.

Yn ystod tymor yr haf treialwyd ein hymweliadau cyswllt manylach yn Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot. Cynhaliwyd yr ymweliadau gan dri arolygydd cyswllt yn ymweld â'r awdurdod lleol am ddau ddiwrnod, gan ganolbwyntio ar un neu ddwy agwedd benodol ar waith yr awdurdod lleol. Yn Sir Benfro, gwnaethom edrych ar y trefniadau amserlennu anghymesur mewn 24 o'r ysgolion a'r dulliau o wella presenoldeb. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, gwnaethom ganolbwyntio ar gefnogaeth ar gyfer datblygu'r cwricwlwm a phresenoldeb. Gwnaethom waith maes ym mron pob awdurdod lleol ar Weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 mewn lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd ac uwchradd, ac ysgolion pob oed. Mae'r adolygiad hwn yn dilyn adolygiad blwyddyn 1 o weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 mewn ysgolion, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023. Gwnaethom hefyd waith maes yn canolbwyntio ar 'effaith tlodi o ran cyrhaeddiad addysgol, cymorth, darpariaeth a phontio ar gyfer addysg gynnar' ym mron pob awdurdod lleol.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Gwaith arfaethedig AGC ar gyfer 2023-25	Cwmpas	Amserlen	Statws
Adolygiadau thematig			
Tîm Anabledd Dysgu Cymunedol (CLDT)	<p>Gan gydweithio ag AGIC, cwblhawyd arolygiad gwiriad sicrwydd yn Rhondda Cynon Taf yn canolbwyntio ar Dimau Anabledd Dysgu Cymunedol (CLDT). Arolygiad ar y cyd CLDT RCT</p> <p>Ail arolygiad gwiriad sicrwydd ym Mlaenau Gwent gan asiantaeth unigol</p>	<p>2024-25</p> <p>Mawrth 2024</p>	<p>Cyhoeddwyd Ebrill 2024</p> <p>Wedi'i gyhoeddi ym mis Mai 2024</p>

Gwaith arfaethedig AGC ar gyfer 2023-25	Cwmpas	Amserlen	Statws
	Byddwn yn parhau â rhaglen flynyddol o waith ar y cyd sy'n canolbwyntio ar CLDT a'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHT).		
Arolygiadau ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA)	<p>Byddwn yn cwblhau dau arolygiad amlasiantaeth arall ar y cyd.</p> <p>Canfyddiadau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA): Pen-y-bont ar Ogwr 2023 Arolygiaeth Gofal Cymru</p> <p>Ein canfyddiadau o Gyngor Dinas a Sir Caerdydd Adroddiad Arolygiad ar y Cyd Caerdydd</p> <p>Canfyddiadau o Gyngor Sir Ddinbych – Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA): Sir Ddinbych 2023 Arolygiaeth Gofal Cymru</p> <p>Canfyddiadau o Gyngor Sir Powys – Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA): Powys 2023 Arolygiaeth Gofal Cymru</p>	<p>Ebrill 2023 – Ebrill 2024</p> <p>Mehefin 2024</p> <p>7 Mai 2024</p> <p>Chwefror 2024</p> <p>Hydref 2023</p>	<p>Adroddiad cenedlaethol i'w gyhoeddi ym mis Medi 2024</p> <p>Wedi'i gyhoeddi</p> <p>Wedi'i gyhoeddi</p> <p>Wedi'i gyhoeddi</p> <p>Wedi'i gyhoeddi</p>

Gwaith arfaethedig AGC ar gyfer 2023-25	Cwmpas	Amserlen	Statws
<p>Adolygu perfformiad Awdurdodau Lleol</p>	<p>Rydym yn parhau i arolygu Awdurdodau Lleol yn unol â'n Cod Ymarfer wedi'i ddiweddarau ar gyfer ein gweithgarwch arolygu awdurdodau lleol Arolygiaeth Gofal Cymru</p> <p>Sut rydym yn arolygu gwasanaethau awdurdodau lleol a CAFCASS Cymru</p> <p>Rydym wrthi'n adolygu ein Cod Ymarfer a byddwn yn ei gyhoeddi'n fuan.</p> <p>Adroddiad o wasanaethau plant ac oedolion Cyngor Sir y Fflint ym mis Chwefror 2024 – Cyhoeddi adroddiad arolygu gwasanaethau oedolion a phlant Cyngor Sir y Fflint Arolygiaeth Gofal Cymru</p> <p>Gwnaethom gyhoeddi Adroddiad ar Arolygiad Gwerthuso Perfformiad: Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Fynwy</p> <p>Gwnaethom gyhoeddi Sir Benfro – Arolygiad gwiriad gwella Gwiriad gwella gwasanaethau oedolion Cyngor Sir Penfro</p> <p>Gwnaethom gynnal Arolygiad Gwerthuso Perfformiad yng ngwasanaeth oedolion Abertawe ym mis Mai 2024</p>	<p>Mynd rhagddo</p> <p>22 Chwefror 2024</p> <p>2 Mai 2024</p> <p>13 Mehefin 2024</p> <p>11 Gorffennaf 2024</p>	<p>Ar y gweill</p> <p>Adolygu</p> <p>Wedi'i gyhoeddi</p> <p>Wedi'i gyhoeddi</p> <p>Wedi'i gyhoeddi</p> <p>I'w gyhoeddi</p>

Gwaith arfaethedig AGC ar gyfer 2023- 25	Cwmpas	Amserlen	Statws
Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi – Arolygiad o Wasanaethau Troseddwyr Ifanc	Gwnaethom gefnogi'r gwaith o ddarparu Arolygiad Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc HMIP yn Sir Ddinbych a Chonwy. <u>Arolygiad o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid: Conwy a Sir Ddinbych (justiceinspectors.gov.uk)</u>	8 Mai 2024	Wedi'i gyhoeddi

Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ers mis Mehefin 2023

Teitl yr adroddiad	Dyddiad cyhoeddi a doleri i'r adroddiad
A465 Adran 2 – diweddariad	Mehefin 2024
Peilot Paru Data Fferylliaeth Gymunedol	Mai 2024
Llywodraethu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol	Ebrill 2024
Cefnogi Wcreiniaid yng Nghymru	Mawrth 2024
O ymdrin â heriau wrth iddynt godi i ddiogelu at y dyfodol – yr her i wasanaethau cyhoeddus Cymru	Chwefror 2024
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – adroddiad dilynol ar effeithiolrwydd	Chwefror 2024
Diweddariad Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol yn defnyddio data o gyfrifon drafft 2022-23	Ionawr 2024
Cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy – Adfywio tir llwyd	Ionawr 2024
Cyd-bwyllgorau Corfforedig – sylwebaeth ar eu cynnydd	Tachwedd 2023
Trefniadau llywodraethu mewn perthynas ag anghydfod cyflogaeth yn Amgueddfa Cymru	Tachwedd 2023
Methiannau mewn rheolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu a cholledion wedi'u dioddef – Cyngor Cymuned Harlech	Tachwedd 2023

Teitl yr adroddiad	Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad
Diffodd y galwadau diangen: Ymatebion Awdurdodau Tân ac Achub i Signalau Tân Dieisiau	Hydref 2023
Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: dilyniant (llythyr i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus)	Hydref 2023
Gweithlu'r GIG – briff data	Medi 2023
Arallgyfeirio Incwm ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru	Medi 2023
Dulliau o sicrhau sero net ledled y DU	Medi 2023
Llamu Ymlaen: Gwersi o'n gwaith ar y gweithlu ac asedau (mewn llywodraeth leol)	Medi 2023
Offeryn data cyllido'r GIG – hyd at 31 Mawrth 2023	Medi 2023
Adroddiadau er budd y cyhoedd – Cyngor Tref Rhydaman a Chyngor Cymuned Llanferres	Medi 2023
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg – Gwaith Dilynol ar yr Adolygiad ar y Cyd o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd	Awst 2023
'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru	Awst 2023
Gwneud y Mwyaf o Arian yr UE – y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig	Mehefin 2023

Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill Archwilio Cymru (gwaith sy'n mynd rhagddo / wedi'i gynllunio)^{1, 2}

Teitl	Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig
Adolygiad o strategaeth ddigidol llywodraeth leol – crynodeb cenedlaethol	Gorffennaf 2024
Defnydd llywodraeth leol o wybodaeth am berfformiad, safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau – crynodeb cenedlaethol	Gorffennaf 2024
Offeryn data cyllido'r GIG – hyd at 31 Mawrth 2024	Gorffennaf 2024
Tai fforddiadwy	Awst 2024
Teithio llesol (adroddiad ac adnodd data)	Awst / Medi 2024
Canfyddiadau paru data peilot cofrestru meddygon teulu	Medi / Hydref 2024
Menter Twyll Genedlaethol – adroddiad bob dwy flynedd	Hydref 2024
Gwasanaethau canser	Hydref 2024

¹ Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrrff archwiliedig i ymgysylltu â ni. Gallai gwaith dilynol hefyd arwain at allbynnau eraill, yn ogystal â gwaith archwilio lleol eraill lle rydym o'r farn bod rhagoriaeth mewn allbwn cryno cenedlaethol o ryw fath.

² Mae ein [Cynllun Blynyddol 2024-25](#) hefyd yn rhestru gwaith sy'n mynd rhagddo, y mae rhywfaint ohono wedi'i gyhoeddi ers hynny, neu waith y bwriedir ei ddechrau yn ystod 2024-25. Mae [Ein rhaglen waith ar gyfer 2023-2026](#) –hefyd yn darparu rhai manylion ychwanegol am bynciau penodol a bydd yn parhau i lywio ein gwaith o gynllunio'r rhaglen waith ar gyfer 2025-26.

Tudalen 13 o 16 - Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Sir Ynys Môn

Teitl	Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig
Cynllunio gweithlu'r GIG (negeseuon cenedlaethol)	Hydref 2024
Gofal heb ei drefnu (negeseuon cenedlaethol – llif cleifion yn yr ysbyty ac oedi wrth ryddhau)	Hydref 2024
Rheolaeth ariannol a llywodraethu mewn cynghorau tref a chymuned	Hydref 2024
Mynd i'r afael â dirywiad bioamrywiaeth (y sector cyhoeddus cyfan ac yn Cyfoeth Naturiol Cymru)	Adolygiad ar draws y sector cyhoeddus – hydref 2024 CNC i'w gadarnhau (cwmpasu)
Buddsoddi cyfalaf a seilwaith Llywodraeth Cymru	Diwedd hydref 2024
Heriau i'r sector diwylliannol	Erbyn diwedd 2024 (adroddiadau lleol)
Canolfan Ganser Newydd Felindre	Dechrau 2025
Canfyddiadau o archwiliadau datblygu cynaliadwy (adroddiad statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)	Erbyn dechrau Mai 2025
Yr uwch wasanaeth cyhoeddus	Cwmpasu ar y gweill, y bwriad o'i gyflawni ddechrau'r haf
Ailgydbwysu gofal a chymorth	I'w gadarnhau (cwmpasu)

Teitl	Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig
Mynd i'r afael â rhestrau aros y GIG (gwaith archwilio lleol mewn byrddau iechyd)	I'w gadarnhau (gwaith lleol ym mhob Bwrdd Iechyd wedi dechrau ym mis Mai 2024)
Mynediad i addysg i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol	I'w gadarnhau (cwmpasu)
Cyllid a goruchwyliaeth addysg bellach ac uwch – Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil	I'w gadarnhau (cwmpasu)
Cymorth i fusnesau	I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2024-25)
Cymorth i wasanaethau bysiau a rheilffyrdd	I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2024-25)
Cynnydd gyda buddsoddiad mewn adeiladau ysgol a choleg drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy	I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2024-25)
Dulliau cyrff y GIG o drawsnewid digidol (gwaith archwilio lleol)	I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2024-25)

Digwyddiadau ac adnoddau'r Gyfnewidfa Arfer Da

Teitl	Dolen i'r adnodd
Sgwrs a Phaned gydag Alex Swift: Ail-Ddiffinio ein bywydau: Tua Dealltwriaeth Gymdeithasol o Niwroamrywiaeth	Gallwch drefnu lle yma .

Teitl	Dolen i'r adnodd
<p>Pwyllgorau Archwilio: Arferion effeithiol ac effaith gadarnhaol</p> <p>Mae trefniadau llywodraethu da yn rhan hanfodol o'r ffordd y mae sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu'n effeithiol ac yn darparu gwasanaethau gwerth am arian i ddinasyddion a chymunedau yng Nghymru. Pwyllgorau Archwilio yw un o'r sylfeini sy'n cefnogi trefniadau llywodraethu da. Gyda phwysau sylweddol ar gyllid y sector cyhoeddus yn awr ac yn y dyfodol, mae angen cynyddol am arferion effeithiol ac effaith gadarnhaol. Mae Pwyllgorau Archwilio yn chwarae rhan hanfodol yn hyn. Mae'r digwyddiad hwn yn rhoi cyfle i rannu profiadau, dysgu, a rhwydweithio gyda chymheiriaid ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.</p>	<p>9 Hydref 2024, 10:30 – 15:30</p> <p>Canolfan Fusnes Conwy</p> <p>Gallwch drefnu lle yma.</p> <p>Mae'r adnoddau o'n digwyddiad yng Nghaerdydd ar 22 Mai ar gael yma.</p>

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad	19 Medi 2024
Pwnc	Adolygiad o'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2024-25 f3
Pennaeth Gwasanaeth	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru
Awdur yr Adroddiad	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru
<p>Natur a Rheswm dros Adrodd Darparu Blaenraglen Waith ar gyfer 2024-25 i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w cynorthwyo i gyflawni Cylch Gorchwyl y Pwyllgor.</p>	

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae Blaenraglen Waith ynghlwm yn [Atodiad A](#), ynghyd â rhaglen hyfforddiant yn [Atodiad B](#).
- 1.2 Mae'r rhaglen wedi'i datblygu gan ystyried cylch gorchwyl y Pwyllgor a'i gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

2.0 ARGYMHELLIAD

- 2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:
 - yn ystyried a yw'r Blaenraglen Waith a gynigir ar gyfer 2024-25 yn bodloni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.

Atodiad A – Blaenraglen Waith 2024-25

Swyddogaeth Graidd	27 Mehefin 2024	18 Gorffennaf 2024	19 Medi 2024	05 Rhagfyr 2024	11 Chwefror 2025	Medi 2025
Cyfansoddiad a threfniadau (3.4.8.2)	Adolygiad o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor (3.4.8.2.1)					Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor (3.4.8.2.1) Cyfarfod preifat gydag archwilwyr mewnol ac allanol heb swyddogion yn bresennol (3.4.8.2.6) (3.4.8.10.15) (3.4.8.11.5)
Trefniadau Atebolrwydd (3.4.8.3)	Log Gweithredodd Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 (3.4.8.3.2) Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2023-24 (3.4.8.3.1/2) Diweddariad ar Gynllun Gweithredu'r Adolygiad o Effeithlonrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (3.4.8.3.2)	Log Gweithredodd Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 f2 (3.4.8.3.2)	Log Gweithredodd Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 f3 (3.4.8.3.2)	Log Gweithredodd Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 (3.4.8.3.2) Diweddariad ar Gynllun Gweithredu'r Adolygiad o Effeithlonrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (3.4.8.3.2)	Log Gweithredodd Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 (3.4.8.3.2)	Log Gweithredodd Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 (3.4.8.3.2)
Llywodraethiant (3.4.8.4)		Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft		Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol		Adroddiad Blynyddol Sgriwtini 2023-24 (3.4.8.4.4)

Swyddogaeth Graidd	27 Mehefin 2024	18 Gorffennaf 2024	19 Medi 2024	05 Rhagfyr 2024	11 Chwefror 2025	Medi 2025
		2023-24 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3) (3.4.8.8.2)		2023-24 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.8.2) Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2023-24 (3.4.8.4.4) (yn amodol)		
Rheoli Trysorlys (3.4.8.5)			Adroddiad Blynyddol 2023-24 (3.4.8.5.1/2/3/4)	Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3)	Strategaeth a Dangosyddion Darbodus 2025-26 (3.4.8.5.1/3/4)	
Gwerth am arian (3.4.8.6)	Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2023-24 (3.4.8.10.6/7/8/9/12/14/15) (3.4.8.6.3)	Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft 2023-24 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3) Datganiad Cyfrifon Drafft 2023-24 (3.4.8.12.1/2) (3.4.8.6.1/2/3)		Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol 2023-24 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3) Datganiad Cyfrifon Terfynol 2023-24 (3.4.8.12.1/2) (3.4.8.6.1/2/3) Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3)	Crynodeb Archwilio Blynyddol 2024 (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3)	
Fframwaith Sicrwydd (3.4.8.7)			Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth (SIRO) 2023-24 (3.4.8.7.1/2/3)	Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn ysgolion 2023-24 (3.4.8.7.1/2/3)		

Tudalen 105

Swyddogaeth Graidd	27 Mehefin 2024	18 Gorffennaf 2024	19 Medi 2024	05 Rhagfyr 2024	11 Chwefror 2025	Medi 2025
			Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2023-24 (3.4.8.7.1/2/3) Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2023-24 (3.4.8.7.1/2/3)	Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2023-24 (3.4.8.7.1/2/3) Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2023-24 (3.4.8.7.1/2/3)		
Rheoli Risg (3.4.8.8)			Diweddariad Newid Hinsawdd (3.4.8.8.3) (dros dro)	Diweddariad Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) Diweddariad Newid Hinsawdd (3.4.8.8.3) (dros dro)	Diweddariad Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)	Adolygiad Blynyddol o Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)
Atal Twyll a Llygredd (3.4.8.9)		Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgwrwobrwyo a Llygredd 2023-24 (3.4.8.9.4/5/6) Canlyniadau Menter Twyll Genedlaethol 2022-24 - Adroddiad Cynnydd (3.4.8.9.6)	Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgwrwobrwyo a Llygredd 2023-24 (3.4.8.9.4/5/6) Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban Blynyddol 2023-24 (3.4.8.9.1) (3.4.8.14.2)		Strategaeth Atal Twyll, Llwgwrwobrwyo a Llygredd 2025-28 (3.4.8.9.2/3)	
Archwilio Mewnol (3.4.8.10)	Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2023-24 (3.4.8.10.5/6/7/8/11/14/15) (3.4.8.6.3)	Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)	Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)	Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)	Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)	Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)

Swyddogaeth Graidd	27 Mehefin 2024	18 Gorffennaf 2024	19 Medi 2024	05 Rhagfyr 2024	11 Chwefror 2025	Medi 2025
	Aseiad Ansawdd Allanol o Gydymffurfiaeth gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (3.4.8.10.1/8/11/13)		Materion / Risgiau / Cyfleoedd sy'n Weddill (3.4.8.10.9/10)			Materion / Risgiau / Cyfleoedd sy'n Weddill (3.4.8.10.9/10) Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol 2025-26 (3.4.8.10.1/2/4/5) Adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol (3.4.8.10.2/12)
Archwilio Allanol (3.4.8.11)	Rhaglen Waith ac Amserlen - Diweddariad Chwarterol (Ch4 2023) (3.4.8.11.2/3) Cynllun Archwilio Blynyddol 2024 (3.4.8.11.1/3)		Rhaglen Waith ac Amserlen - Diweddariad Chwarterol (Ch1 2024) (3.4.8.11.2/3)	Rhaglen Waith ac Amserlen - Diweddariad Chwarterol (Ch2 2024) (3.4.8.11.2/3) Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3) (3.4.8.12.4)	Rhaglen Waith ac Amserlen - Diweddariad Chwarterol (Ch3 2024) (3.4.8.11.2/3) Crynodeb Archwilio Blynyddol 2024 (3.4.8.11.1/2/3) (3.4.8.6.3)	Rhaglen Waith ac Amserlen - Diweddariad Chwarterol (Ch4 2024) (3.4.8.11.2/3)
Adrodd Ariannol (3.4.8.12)		Datganiad Cyfrifon Drafft 2023-24 (3.4.8.12.1/2/3/5) (3.4.8.6.1/2/3)		Datganiad Cyfrifon Terfynol 2023-24 (3.4.8.12.1/2/3/5) (3.4.8.6.1/2/3)		
Rheoleiddwyr ac Archwilwyr Eraill (3.4.8.13)				Adolygiadau Cenedlaethol a'u Hargymhellion Cysylltiedig (3.4.8.13.1)		

Swyddogaeth Graidd	27 Mehefin 2024	18 Gorffennaf 2024	19 Medi 2024	05 Rhagfyr 2024	11 Chwefror 2025	Medi 2025
Delio â Chwynion (3.4.8.14)			Adroddiad Blynyddol Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban 2023-24 (3.4.8.14.1/2) Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2023-24 (3.4.8.14.1)			
Adroddiad Hunanasesu (3.4.8.15)		Adolygiad o'r Adroddiad Corfforaethol Hunanasesu Blynyddol Drafft 2023-24 (3.4.8.15.1/2/3)				
Asesiad o berfformiad gan Banel (3.4.8.16) ¹						
3.4.8.17 Archwiliad Arbennig gan yr Archwilydd Cyffredinol ²						

¹ O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir asesiad o berfformiad gan banel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cyngorwyr i'r cyngor. Gall y cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw hyn yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio, a rhaid i'r pwyllgor hwnnw wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i asesiad y panel.

² Os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliad arbennig (gan ei fod o'r farn nad yw'r Cyngor, neu efallai na fydd y Cyngor, yn cwrdd â'i ofynion perfformiad), a bod adroddiad yn cael ei anfon at y Cyngor, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn adroddiad o'r fath, rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Atodiad B – Rhaglen Hyfforddiant (3.4.8.2.10)

Hyfforddiant benodol i'r pwyllgor

Maes	Dyddiad a ddarparwyd ddiwethaf	Cyfrwng	Darparwr	Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu	Presenoldeb
Deall Cyfrifon Awdurdodau Lleol ar gyfer Cyngorwyr	Mehefin 2023 Awst 2023				
Rheoli Trysorlys (3.4.8.5.2)	Medi 2023				
Sgiliau Cadeirio Effeithiol	Hydref 2023				
Atal Twyll a Llygredd	Rhagfyr 2023				
Rheoli Risg	Mawrth 2024				

Tudalen 109

Hyfforddiant gorfodol

Maes	Cyfrwng	Darparwr	Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu	Wedi ei Gwblhau
Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)	eDdysgu	Mewnol	Ar gael unrhyw bryd	
Seiber Ninjas ar gyfer Cyngorwyr ³	eDdysgu	Mewnol	Ar gael unrhyw bryd	
Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Ddiogelu	eDdysgu	Mewnol	Ar gael unrhyw bryd	
Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (dewisol ar gyfer aelodau lleyg)	eDdysgu	Mewnol	Ar gael unrhyw bryd	
Atal/Prevent (dewisol ar gyfer aelodau lleyg)	eDdysgu	Mewnol	Ar gael unrhyw bryd	
Caethwasiaeth Fodern (dewisol ar gyfer aelodau lleyg)	eDdysgu	Mewnol	Ar gael unrhyw bryd	

³ Mae'r modiwl Ninjas Seiber yn fyw unwaith eto ar ddangosfwrdd Pwll Dysgu yr Aelodau. Fel un o ofynion cyllid y grant, bydd gofyn i'r tîm Hyfforddiant a Datblygu adrodd ar gynydd yn chwarterol, a byddant yn codi ymwybyddiaeth bellach gydag aelodau cyn bo hir.

This page is intentionally left blank